Judiciary of England and Wales

Arolwg yr Arglwydd Brif Ustus o Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y Llysoedd

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

Y Llyfrfa
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill
TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

Ionawr 2010

Barnwriaeth Cymru a Lloegr

Arolwg yr Arglwydd Brif Ustus o Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y Llysoedd

Llundain: Y Llyfrfa £14.35

© Hawlfraint y Goron 2010

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod ffynhonnell y deunydd fel Hawlfraint y Goron ac mae'n rhaid cynnwys teitl y ddogfen.

Ble rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall o'r deunydd hwn, cysylltwch â Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus, Tîm Polisi Gwybodaeth, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu e-bost: licensing@opsi.gsi.gov.uk.

ISBN: 9780108508882

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited

ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID P002342310 01/10

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys isafswm o 75% o gynnwys ffibr a ailgylchwyd

Cynnwys

Cyflwyniad 5

1. Cyfrifoldebau'r Arglwydd Brif Ustus 6

2. Cyfiawnder Troseddol 9

3. Cyfiawnder Sifil 15

4. Cyfiawnder Teuluol 23

5. Cyfrifoldebau Arweinyddiaeth 27

6. Y Farnwriaeth 30

7. Gweithrediad y Cytundeb Partneriaeth 34

Atodiad 1: Dolenni at Adroddiadau eraill neu ffynonellau gwybodaeth fanylach 36

Cyflwyniad

Gan yr Arglwydd Farnwr, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr

Mae'n dda gennyf gyflwyno fy Arolwg Blynyddol cyntaf. Mae'n cwmpasu cyfnod y Flwyddyn Gyfreithiol 2008-09. Yn y dyfodol byddwn yn cynhyrchu Arolygon i ddarparu gwybodaeth am y Flwyddyn Gyfreithiol flaenorol.

Nid yw'r arolwg yn ceisio ailadrodd gwybodaeth sydd ar gael o ffynonellau cyhoeddus eraill. Mae'r atodiad yng nghefn yr arolwg hwn yn rhestru ffynonellau eraill gwybodaeth, yn arbennig am fanylion gwaith y llysoedd neu'n fwy cyffredinol, Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi.

Gellid disgwyl i mi ganmol gweithgareddau'r farnwriaeth yr wyf yn Bennaeth arno yn y cyflwyniad hwn. Rwy'n gwneud hynny'n gwbl agored a gyda balchder. Mae'r dynion a'r menywod sy'n gwasanaethu'r Goron mewn swyddfa farnwrol yn ymgysylltu'n ddyddiol â'u cyd ddinasyddion, yn aml pan fyddant fwyaf bregus. Mae gofyn iddynt wneud penderfyniadau hynod anodd a sensitif yn effeithio ar eu bywydau ac i wneud hynny'n dawel a gydag amynedd teg a mesuradwy. Mae'r gwaith yn ddidrugaredd ac ar adegau'n waith blinderus iawn ac fe all y dewrder moesol sy'n angenrheidiol i arfer awdurdod barnwrol fod yn sylweddol. Ni ddylid ei dan ystyried.

Dylai cenhedloedd Cymru a Lloegr rannu fy malchder eu bod yn cael eu gwasanaethau cystal.

Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr

1 Cyfrifoldebau'r Arglwydd Brif Ustus

Cyflwyniad

1.1 Sefydlodd yr *Arolwg o Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y Llysoedd* a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd, yr Arglwydd Phillips o Worth Matavers, ym Mawrth 2008 y tirwedd gyfansoddiadol newydd yr wyf i a'r farnwriaeth yn gweithredu ynddo erbyn hyn. Mae'r cytundeb partneriaeth newydd ar gyfer gweithredu Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS), a gytunwyd yn Ebrill 2008, wedi rhoi gig a gwaed ar esgyrn y setliad cyfansoddiadol diweddar (gweler Pennod Saith am ragor o fanylion). Er na chafwyd unrhyw addasiadau sylfaenol i drefniadau cyfansoddiadol ers Ebrill 2008, mae'n dal yn briodol i ddarlunio'r fframwaith statudol sy'n arwain ymarferiad fy swyddogaethau.

1.2 Fel Pennaeth y Farnwriaeth a Llywydd Llysoedd Cymru a Lloegr, rwy'n gyfrifol am nifer o ddyletswyddau statudol o bwys mawr. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldeb dros gynrychioli barn y farnwriaeth i'r

- Senedd;
- yr Arglwydd Ganghellor; a
- Gweinidogion y Goron.

Mae'n ofynnol i mi gynnal trefniadau priodol ar gyfer lles, hyfforddiant a chanllaw'r farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr ac i gynnal y trefniadau priodol ar gyfer lleoli'r farnwriaeth a dyraniad gwaith yn y llysoedd. Ar y cyd â'r Arglwydd Ganghellor, rwy'n gyfrifol am weinyddu system ddisgyblu ar gyfer y farnwriaeth. Mae gennyf hefyd rôl statudol yn y broses o benodi deiliaid swyddi barnwrol.

1.3 Yn ystod y cyfnod a gwmpasir gan yr Arolwg hwn, Penaethiaid yr Isadrannau oedd: Meistr y Rholiau, Yr Arglwydd Clarke o Stone-cum-Ebony; Llywydd Adran Mainc y Frenhines, Syr Anthony May; Llywydd yr Adran Deulu, Syr Mark Potter; a Changhellor yr Uchel Lys, Syr Andrew Morritt. Yr Uwch Farnwr Llywyddol oedd yr Arglwydd Ustus Leveson.

Yn cynrychioli Barn y Farnwriaeth i'r Senedd

1.4 Er nad wyf wedi ymddangos gerbron unrhyw bwyllgorau Seneddol ers cael fy mhenodi yn Arglwydd Brif Ustus, mae Meistr y Rholiau a'r Arglwydd Ustus Jackson wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon[1].

1.5 Rwy'n gallu cynrychioli barn y farnwriaeth i lywodraeth trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidogion y llywodraeth. Y rhai yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd nhw

1 Gellir arolygu eu tystiolaeth trwy ddilyn y ddolen ganlynol – www.publications.parliament.uk/pa/cm-cmcumeds.htm

yw'r Arglwydd Ganghellor a'r Twrnai Cyffredinol. Gyda'r Arglwydd Ganghellor y byddaf yn cwrdd fwyaf rheolaidd ar gyfer cyfarfodydd dwyochrog misol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i drafod materion o bwys cyffredinol i'r farnwriaeth.

Areithiau gan y Farnwriaeth

1.6 Yn ystod y flwyddyn, fe ofynnir i farnwyr siarad yn rheolaidd mewn darlithoedd a digwyddiadau cyfreithiol. Mae rhai o'r rhain yn ddigwyddiadau cyhoeddus a bydd gan eraill gynulleidfa fwy cyffredinol neu gallant fod yn ddigwyddiadau preifat. Mae'r gwefan farnwrol yn cynnwys yr areithiau hynny y mae'r barnwr eisiau iddynt fod ar gael i'r cyhoedd, neu a wnaed mewn fforwm cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pynciau wedi amrywio ar draws amrywiol ddisgyblaethau'r gyfraith, i faterion yn ymwneud ag annibyniaeth farnwrol a rheolaeth cyfraith, ac amrywiaeth barnwrol[2].

Cyfarwyddiaeth Swyddfeydd Barnwrol

1.7 Mae Cyfarwyddiaeth Swyddfeydd Barnwrol Cymru a Lloegr ("y Gyfarwyddiaeth") yn parhau i'm cefnogi wrth i mi gyflawni fy swyddogaethau statudol. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn bodoli i'm cefnogi fi ac aelodau eraill o'r uwch farnwriaeth wrth gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a chyfansoddiadol. Yn dilyn marwolaeth gynnar, trist Debora Matthews, roedd yn dda gennyf gael cyhoeddi penodiad Anne Sharp fel Prif Weithredwr y Gyfarwyddiaeth yn Ebrill 2009. Bydd Anne yn ein llywio trwy gyfnod o gyfnerthiad wrth i ni adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.

1.8 Mae rhai meysydd ble cefnogwyd yr uwch farnwriaeth gan y Gyfarwyddiaeth yn ystod y flwyddyn gyfreithiol ddiwethaf yn cynnwys –

- Amrywiaeth Barnwrol
- Penodiadau Barnwrol
- Cysylltiadau Seneddol
- Gofal Bugeiliol (Lles)
- Cysylltiadau Rhyngwladol
- Hyfforddiant Barnwrol
- Cyfathrebu

Disgyblaeth Farnwrol

1.9 Sefydlwyd y Swyddfa dros Gwynion Barnwrol (OJC) yn Ebrill 2006 i ddelio â chwynion yn erbyn deiliaid swyddi barnwrol ac i ddarparu cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor a minnau yn ein cyd gyfrifoldeb dros y system o gwynion

2 www.judiciary.gov.uk/publications_media/speeches/index.htm

a disgyblaeth farnwrol. Penodwyd Mrs Sheridan Greenland OBE yn Bennaeth newydd y Swyddfa dros Gwynion Barnwrol yn Awst 2009 a bydd yn cryfhau a datblygu gwaith yr OJC.

1.10 Ym Mawrth 2009, fe benderfynodd yr Arglwydd Ganghellor a minnau gynyddu tryloywder ac atebolrwydd yn y broses ddisgyblaethol. Fe gytunom ble diddymir deiliaid swydd farnwrol o'i swydd yn dilyn gweithdrefnau disgyblu y dylid tybio y bydd enw deiliad y swydd farnwrol a'r rheswm dros eu diddymu o'r swydd fod ar gael i'r cyhoedd. Gan gofio'r penderfyniad hwn, rydym er hynny'n parhau i wneud penderfyniadau am ddatgelu ar sail yr achos dan sylw. Gellir gweld rhagor o fanylion ar wefan yr OJC[3].

1.11 Mewn man arall, fe barhaodd yr OJC i ddarparu cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor a minnau wrth i ni arfer ein swyddogaethau statudol dan y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Mae Adroddiad Blynyddol yr OJC yn cyflwyno faint o gwynion a wnaed yn erbyn deiliaid swyddi barnwrol yn y flwyddyn adrodd 2008/2009, ynghyd â'r nifer a mathau o ymchwiliadau a gyflawnwyd a manylion gweithredu disgyblaethol.

3 www.judicialcomplaints.gov.uk

2 Cyfiawnder Troseddol

Pennaeth Cyfiawnder Troseddol a swyddi statudol eraill

2.1 Yr Arglwydd Brif Ustus yw Pennaeth Cyfiawnder Troseddol. Mae hon yn rôl statudol dan adran 8 y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. I'm cynorthwyo rwyf wedi penodi'r Arglwydd Ustus Thomas fel Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Troseddol, hefyd dan adran 8 y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Mae'r Arglwydd Ustus Thomas, sydd hefyd yn Ddirprwy Lywydd Adran Mainc y Frenhines, wedi gweithio ar fy rhan ar nifer o'r materion cyfiawnder troseddol sydd angen cyfraniad barnwrol.

2.2 Fel byddid disgwyl, mae cryn ddiddordeb ymysg y cyhoedd yng ngweithrediad deddf droseddol a'r llysoedd troseddol. Fe'n cefnogir gan yr Uwch Farnwr Llywyddol - sef yr Arglwydd Ustus Leveson wrth ysgrifennu hwn - parthed agweddau mwy gweithredol y system gyfiawnder troseddol, a rhedeg y llysoedd ledled Cymru a Lloegr. Fe'i cefnogir gan y Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol, yr Arglwydd Ustus Goldring, a'r Barnwr Rhanbarth Michael Walker.

2.3 Penodwyd yr Arglwydd Ustus Hughes yn Ddirprwy Lywydd y Llys Apêl (Adran Droseddol) i olynu Syr David Latham, a ymddeolodd yn Chwefror 2009. Gwnaethpwyd y penodiad hwn dan adran 3 Deddf y Goruchel Lys 1981. Mae'r Arglwydd Ustus Hughes yn cydweithio'n agos â'r Meistr Venne, Cofrestrydd Apeliadau Troseddol, i sicrhau fod y Llys Apêl (Adran Droseddol) yn rhedeg yn effeithiol ac yn ymdopi â'i lwyth gwaith o dros 6,500 o achosion y flwyddyn.

Barnwyr Preswyl

2.4 Mae fy nghydweithwyr a minnau yn gwneud defnydd arbennig o arbenigedd y Barnwyr Preswyl yng Nghymru a Lloegr, corff o aelodau ymroddedig a phrofiadol iawn o'r farnwriaeth gydag arbenigedd awdurdodol ym maes cyfiawnder troseddol. Fel arfer, maent wedi darparu gwybodaeth sylweddol am weithrediad y system gyfiawnder troseddol, gan amlygu problemau arbennig wrth iddynt godi a rhoi sylw ar effaith y datrysiadau arfaethedig. Rwy'n cwrdd â phob Barnwr preswyl unwaith y flwyddyn yn y eu cynhadledd flynyddol, fforwm pwysig ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth ymysg ein gilydd. Yng nghynhadledd Tachwedd 2008, er enghraifft, fe drafodwyd sut i sicrhau ansawdd priodol adfocadau yn Llys y Goron; sut y gallai Barnwyr Preswyl sicrhau, heb effeithio ar eu hannibyniaeth, eu bod yn sefydlu perthynas weithredol gyda'u Prif Erlynwyr lleol; a datblygiadau yn Ewrop a'r angen am gyfranogiad gweithredol ledled y Rhwydwaith Ewropeaidd o Gynghorau am y Barnwriaeth. Mae nifer o farnwyr o'r fath yn eistedd fel barnwyr ar y Llys Apêl (Adran Droseddol) a, thrwy wneud hynny, yn dod â phrofiad gwerthfawr o brofion troseddol llinell flaen i'r broses apelio.

Craffu Deddfwriaethol a Diwygio'r Gyfraith

2.5 Fodd bynnag, un o fy rolau fel Pennaeth Cyfiawnder Troseddol yw drafftio deddfwriaeth cyfiawnder troseddol a argymhellir gan y Llywodraeth. Gyda chymorth yr Arglwydd Ustus Thomas ac, ar adegau, y Pwyllgor Rose, rydym yn archwilio effaith argymhellion y Llywodraeth ar gyfer diwygio'r gyfraith ar arferion a gweithdrefnau'r llysoedd troseddol. Mae'r Pwyllgor Rose (sy'n cael ei enw gan gyn Ddirprwy Lywydd y Llys Apêl (Adran Droseddol), Syr Christopher Rose) yn cynnwys uwch Arglwyddi ac Arglwyddesau Ustusiaid, dau Farnwr Uchel Lys a Chofrestrydd Apeliadau Troseddol, sy'n gwneud defnydd o'u harbenigedd o gyfraith droseddol i archwilio p'un ai, ac os felly sut, fyddai argymhellion ar gyfer diwygio yn gweithio yn ymarferol. Eleni rydym wedi talu sylw arbennig i'r rhannau hynny o Fesur y Crwneriaid a Chyfiawnder sy'n effeithio ar ymarfer a gweithdrefn y llysoedd troseddol, yn cynnwys cymalau yn ymwneud ag anhysbysrwydd tystion, dynladdiad a dedfrydu. Ond yn y dadansoddiad terfynol y Senedd sy'n penderfynu ar ddeddfwriaeth.

2.6 Mae aelodau o'r uwch farnwriaeth yn cynorthwyo gyda'r ymatebion barnwrol i amrywiol ymgynghoriadau cyhoeddus. Er enghraifft, fe gyflwynodd y farnwriaeth ymateb i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar *Dderbynioldeb Tystiolaeth Arbenigol mewn Achosion Troseddol*, a ddrafftiwyd gan Mrs Ustus Gloster a Mr Ustus Fulford, ac fe'i hystyriwyd gan Bwyllgor Rose. Mae copi o'r ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw ar gael ar ein wefan farnwrol[4]. Mae hyn ar wahân i ymatebion unigol a anfonir gan aelodau eraill o'r farnwriaeth, ar bob lefel, at ymgynghoriadau cyhoeddus yn gweithredu fel unigolion, yn hytrach nag ar ran y farnwriaeth yn gyffredinol.

Pwyllgor Rheol Gweithdrefn Droseddol

2.7 Mae'r Pwyllgor Rheol gweithdrefn droseddol yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a grëwyd gan Ddeddf y Llysoedd 2003 mewn ymateb i argymhellion Arolwg Syr Robin Auld 2001 o *Lysoedd Troseddol Cymru a Lloegr*. Amcanion statudol y Pwyllgor Rheol yw cynhyrchu rheolau ar gyfer llys i lywodraethu arferion a gweithdrefn y llysoedd troseddol, i sicrhau fod y system gyfiawnder troseddol yn hygyrch, yn deg ac effeithiol, a bod y rheolau mae'n creu yn syml ac wedi eu mynegi'n glir. Yr Arglwydd Brif Ustus yw Cadeirydd statudol y Pwyllgor Rheol ac fe benodwyd yr Arglwydd Ustus Hooper yn Ddirprwy Gadeirydd i redeg y Pwyllgor o ddydd i ddydd. Mae'r pwyllgor yn brolio aelodaeth aruchel, yn cynnwys dau Arglwydd Ustus Apêl, barnwr Uchel Lys, dau Uwch Farnwr Cylchdaith, Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Prif Gwnstabl yr heddlu, uwch aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol, a defnyddwyr cynrychiadol o'r system gyfiawnder troseddol.

4 www.judiciary.gov.uk

Materion Cyffredinol Cyfiawnder Troseddol

2.8 Cafwyd cynnydd sylweddol yng ngwaith Llys y Goron (deg y cant yn y flwyddyn ddiwethaf). Mae'r rhesymau am hyn yn gymhleth a niferus. Er enghraifft, rwy'n pryderu ynghylch y nifer gynyddol o ddiffynyddion sy'n dewis treial gan reithgor ac sy'n mynd ymlaen i bledio'n euog yn y gwrandawiad cyntaf yn Llys y Goron. Rwyf wedi gofyn i'r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddu edrych ar ddulliau o symleiddio'r broses a lleihau oedi. Mae'n annhebyg y bydd detholiad o ddatrysiadau hawdd, ond rhaid i'r system gyfiawnder troseddol wneud popeth yn ei allu i annog y rhai sy'n euog i bledio ar y cyfle cyntaf posibl i gychwyn arni. Yn syml, rhaid i ni edrych ar ddulliau o ddatrys achosion, ble fo'n briodol, yn y llysoedd ynadon sydd â'r gallu i ddelio â'r niferoedd, yn hytrach na'r opsiwn drytach o Lys y Goron sy'n methu ar hyn o bryd.

2.9 Fodd bynnag, mae materion ehangach i'w hystyried. Gallaf ddeall fod angen gwneud penderfyniadau anodd yn ystod cyfnod o bwysau ariannol dwys, ond mae'r arbedion y mae'n rhaid i'r CPS, y Gwasanaeth Prawf a'r llysoedd ddarparu yn cael effaith wirioneddol ar weinyddiaeth cyfiawnder ar hyn o bryd. Mae problemau presennol megis cyfyngiadau amser yn y ddalfa, neu ganslo gwrandawiadau yn weddol brin, ond heb os mae yna berygl y byddant yn dod yn fwyfwy cyffredin.

2.10 Ar yr un pryd, mae aneffeithiolrwydd o fewn system y llysoedd y mae'n rhaid i ni daclo. Roedd CJSSS (Cyfiawnder Troseddol: Syml, Buan, Diymdroi) yn rhaglen a gynlluniwyd ac a weithredwyd gan y farnwriaeth, gyda chefnogaeth helaeth HMCS, gyda'r bwriad o leihau oedi, a'r nifer o wrandawiadau, yn y llysoedd ynadon. Roed yn llwyddiant aruthrol, yn bennaf am i bawb oedd yn gysylltiedig â'r broses (amddiffyn, erlyniad, heddlu, llysoedd a'r farnwriaeth) gydweithio i daclu aneffeithiolrwydd ac oedi. Mae wedi arwain at ostyngiad o dros 20 y cant yn y nifer cyfartalog o wythnosau rhwng cyhuddiad i glirio achosion yn ymwneud diffynyddion sy'n oedolion (bellach yn 6.9 wythnos), a lleihad o dros 20 y cant yn y nifer o wrandawiadau fesul achos (bellach yn 2.3 gwrandawiad). Fodd bynnag, rwy'n awyddus i sicrhau nad ydym yn colli'r manteision hyn, trwy ailbwysleisio pwysigrwydd cyfraniad pawb i reoli achosion. Mae hyn yn berthnasol i Lysoedd y Goron a'r Ynadon. Bydd y farnwriaeth yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau fod pob parti yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau rheoli achos a roddir dan y Rheolau Gweithdrefn Droseddol. Wrth i adnoddau brinhau, bydd yn bwysig lleihau'r nifer o wrandawiadau a wastreffir i'r lleiafswm isaf posibl.

2.11 Mae'r Pwyllgor Rheol yn ceisio cynhyrchu rheolau fydd yn galluogi'r llysoedd a phartïon i reoli achosion mewn modd effeithiol, yn unol ag amcan pwysicaf y rheolau, sef i ddelio ag achosion yn gyfiawn. I'r diben hwnnw, mae wedi amnewid cyfrolau o reolau gweithdrefnol amwys ar gyfer llysoedd ynadon a Llys y Goron, gan alluogi defnyddwyr y llysoedd troseddol i ddibynnu ar un gyfres o reolau syml ar gyfer sawl maes o weithdrefn droseddol, ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mewn copi caled[5]. Mae'n fy mhoeni yr anrhydeddir y Rheolau mwy wrth eu torri nag o ran cydymffurfio. Mae'n rhaid i hyn newid. Mae'r Pwyllgor

5 www,justice.gov.uk/criminal/procrules_fin/rulesmenu.htm

Rheol Gweithdrefn Droseddol yn ymwybodol iawn o hyn ac yn ystyried sut y gellir cyflwyno diwylliant o ddefnyddio'r rheolau a gwell rheolaeth o achosion i'r llysoedd troseddol.

2.12 Ers peth amser rwyf wedi pryderu ynghylch y defnydd cynyddol o hysbysiadau cosb benodol, rhybuddion a rhybuddion amodol mewn achosion a ddylai wedi dod gerbron y llysoedd. Rwyf wedi dod ar goedd y dylid delio ag unrhyw ymosodiad sy'n achosi niwed mewn llys. Roeddwn yn falch iawn felly i ddarllen sylwadau comisiynydd yr Heddlu Metropolitanaidd, Syr Paul Stephenson, yn ei gyfweliad diweddar gyda'r *Times* wrth gyfeirio at ymosodiad gan blentyn hŷn ar un iau: "Beth oedd y canlyniad? Roddwyd rhybudd i'r ymosodwr gan yr heddlu. Mae'n anodd gen i ddychmygu y byddai unrhyw un yn gweld hyn fel cyfiawnder.[6]" Rwy'n croesawu'r arolwg a lansiwyd gan yr Arglwydd Ganghellor ac yn gobeithio y bydd yn arwain at newidiadau materol yn y modd y defnyddir hysbysiadau cosb benodol, rhybuddion a rhybuddion amodol.

2.13 Byddwn yn annog gofal o ran cyflwyno mwy o newidiadau deddfwriaethol. Nid yn unig y gall y rhain gyflwyno cynnydd mewn llwyth gwaith o ran materion a godir mewn achosion unigol, ond mae'n bosibl hefyd y byddant yn effeithio'n negyddol ar y system yn gyffredinol. Yn fy araith yng ngwledd flynyddol Arglwydd Faer Llundain i'r farnwriaeth yng Ngorffennaf[7], fe nodais fod pum Deddf Seneddol wedi ychwanegu 1,118 o Adrannau, a 68 o Atodlenni yn cynnwys 2,268 o baragraffau yn 2003 yn unig. Fe gymharais hyn gyda'r un darn sylweddol unigol o ddeddfwriaeth yn 1972. Mae o leiaf un Mesur cyfiawnder troseddol wedi ymddangos pob blwyddyn, ar ryw ffurf, am dros ddegawd, ac yn aml bydd deddfwriaeth cyfiawnder troseddol arall yn cyd-fynd â'r Ddeddf.

2.14 Un rheswm pam fy mod yn pryderu am gyflwyno prawf moddion yn Llys y Goron yw ei fod yn debygol o arwain at gynnydd yn y nifer o ddiffynyddion yn cynrychioli eu hunain. Mae diffynyddion sydd heb amddiffynnydd yn anochel yn mynd i gynyddu hyd treialon wrth iddynt geisio dehongli cyfundrefn ddeddfwriaethol gynyddol gymhleth heb unrhyw gymorth proffesiynol.

Cyngor Canllawiau Dedfrydu

2.15 Ar hyn o bryd, fi yw Cadeirydd y Cyngor Canllawiau Dedfrydu, gyda chymorth y dirprwy gadeirydd, yr Arglwydd Ustus Thomas; rydym ein dau yn weithgar yn y Cyngor a'i waith, a gefnogir gan gyngor gwerthfawr y Panel Cynghori ar Ddedfrydu ac a dywysir yn effeithiol gan y tîm ysgrifenyddol. Yn ystod cyfnod prysur, mae'r Cyngor wedi terfynu nifer o brosiectau allweddol, a chyhoeddi canllawiau diffiniol parthed dedfrydu troseddau o ladrad a byrgleriaeth annomestig, ymgais i lofruddio a throseddau statudol o dwyll. Roedd dau o'r prosiectau yn cynnwys diweddariadau cysylltiedig i *Ganllawiau Dedfrydu'r Llys Ynadon*[8]. Mae'r

6 *The Times* 8 Tachwedd 2009
7 www.judiciary.gov.uk/docs/speeches/lcj-lord-mayor-speech-14072009.pdf
8 www.sentencing-guidelines.gov.uk/docs/magistrates_court_sentencing_guidelines_update.pdf

Cyngor hefyd wedi cynhyrchu canllaw yn cwmpasu'r egwyddorion trosfwaol sy'n berthnasol i ddedfrydu pobl ifanc, a gyhoeddwyd i gyd-fynd â chyflwyniad y darpariaethau statudol yn ymwneud â'r fframwaith dedfrydu ar gyfer troseddwyr dan 18 oed. Yn ogystal, cyhoeddwyd gwybodaeth ar gyfer beirniaid ac ynadon yn adroddiad blynyddol ar y cyd y Cyngor a'r Panel a chylchlythyr ystadegol oedd yn darparu data dedfrydu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer 2007.

2.16 O ganlyniad i'r Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, fe grëwyd Cyngor Dedfrydu newydd ac o ganlyniad bydd y Panel Cynghori ar Ddedfrydu yn cael ei ddiddymu ac amrediad cyfrifoldebau'r Cyngor newydd yn ehangach nag erioed. Er y bydd yr Arglwydd Brif Ustus yn Llywydd y Cyngor Dedfrydu newydd, ni fydd yn aelod ohono. Bydd yr Arglwydd Ustus Leveson, sy'n rhoi'r gorau i fod yn Uwch Farnwr Llywyddu ar ddiwedd y flwyddyn galendr, yn cadeirio'r Cyngor. Rydym yn ffodus y bydd yn gallu dod a'i ynni a brwdfrydedd naturiol i'r rôl.

2.17 Cefais fy nharo gan ymroddiad aelodau'r Panel Cynghori ar Ddedfrydu ac ansawdd cyfraniadau pob un ohonynt i ddatblygiad canllaw dedfrydu. Rydym wedi cael cefnogaeth alluog iawn gan yr Ysgrifennydd a staff y Cyngor Canllawiau Dedfrydu.

Cyngor Cyfiawnder Troseddol

2.18 Yr Arglwydd Ustus Leveson sy'n cadeirio'r Cyngor Cyfiawnder Troseddol, sy'n uno amrywiaeth eang o gynrychiolwyr o'r rhai sy'n ymwneud â neu'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder troseddol. Mae'r Cyngor yn cwrdd pob chwarter i gadw pob agwedd o weithrediad cyfiawnder troseddol dan arolwg ac i gynnig cyngor arbennigol i'r rheini sydd yn dod o'i flaen ar fath ac effeithiolrwydd gweithredol diwygiadau posibl. Yn ei ddadansoddiad o faterion troseddol presennol, mae'r Cyngor wedi darparu nifer o ymatebion ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn cynnwys awgrymiadau ar sut i ddenu cymunedau i fod yn rhan o gyfiawnder troseddol.

Twyll

2.19 Ym Mai 2009, cyflwynwyd addasiad i'r *Gyfarwyddeb Ymarfer Troseddol Cyfunol*[9]. Mae hyn yn llywodraethu cynnal achosion ble mae'r erlyniad a'r amddiffyn wedi ceisio dilyn Canllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar *Drafodaethau Pledio mewn Achosion o Dwyll Difrifol neu Gymhleth*. Mae'r rhain yn galluogi'r erlyniad a'r amddiffyn i drafod pledion derbyniol cyn cyflwyno cyhuddiadau, ac i wneud cyflwyniadau ar y cyd ynghylch yr awdurdodau dedfrydu priodol ac ystodau dedfrydu perthnasol. Roedd cyfeiriad fy ymarfer yn dilyn trafod gyda Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol am gynnwys canllawiau'r Twrnai Cyffredinol ac ymgynghoriad yn benodol ar gyfer y rhai gyda diddordeb yn y system gyfiawnder troseddol.

Sicrwydd Ansawdd Eiriolaeth

9 www.justice.gov.uk/criminal/procrules_fin/contents/practice_direction/pd_consolidated.htm

2.20 Mae'n ofyniad hanfodol o weinyddiaeth cyfiawnder fod bob ochr wedi eu cynrychioli gan eiriolwyr gyda'r sgil a phrofiad priodol i allu delio â'r achos. Mae'r Arglwydd Ustus Thomas wedi parhau i ddarparu mewnbwn barnwrol i gynorthwyo'r CGC a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn eu gwaith i ddatblygu cynllun sicrwydd ansawdd ar gyfer eiriolwyr amddiffyniad troseddol a ariennir gan y cyhoedd. Mae'r Arglwydd Ustus Thomas wedi creu corff strategol o gynrychiolwyr lefel uchel i hysbysu ac arwain gwaith Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cyfiawnder Troseddol Ewropeaidd

2.21 Mae'r Arglwydd Ustus Thomas hefyd yn brif farnwr cyfrifol am Gyfiawnder Troseddol Ewropeaidd. Mae'n parhau i gysylltu â'r Llywodraeth a chydweithwyr Ewropeaidd i sicrhau fod gan y farnwriaeth gysylltiad digonol gyda diwygiadau Ewropeaidd yn ymwneud â chyfiawnder troseddol. Mae wedi canolbwyntio'r arbennig ar faterion estraddodi a gweithrediad ymarferol amrywiol Benderfyniadau Fframwaith y Comisiwn Ewropeaidd, megis y rhai'n ymwneud â'r defnydd o euogfarnau Ewropeaidd blaenorol yn llysoedd Cymru a Lloegr. Mae gwaith atodol yn cynnwys archwilio cyfleoedd i farnwyr Cymraeg a Saesneg gyfnewid gwybodaeth gyda barnwyr Ewropeaidd eraill ar broblemau cyffredin a'r modd y delir â gwahanol faterion cyfreithiol o fewn gwahanol systemau. Rhaid sicrhau fod datblygiad deddfau troseddol Ewropeaidd penodol yn gyflenwol i'n treftadaeth cyfraith gyffredin.

3 Cyfiawnder Sifil

3.1 Mae Meistr y Rholiau yn Llywydd y Llys Apêl (Adran Sifil) a Phennaeth Cyfiawnder Troseddol. Yn y cymhwyster hwn, mae gan Feitr y Rholiau gyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi a rheolau mewn cyfiawnder troseddol; mae hefyd yn gadeirydd y Cyngor Cyfiawnder Sifil a chadeirydd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Sifil (CPRC), er bod cyfrifoldeb dros y CPRC wedi ei ddirprwyo i Ddirprwy Gadeirydd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer gwaith dydd i ddydd.

3.2 Llywydd Adran Mainc y Frenhines yw Pennaeth Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol. Mae ei gyfrifoldebau yn cynnwys cymryd trosolwg strategol o'r dynesiad barnwrol i bolisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Adrannau eraill parthed cyfraith weinyddol a chyhoeddus sylweddol, yn cynnwys cyflawniad effeithiol gwaith y Llys Gweinyddol yn Llundain a llefydd eraill. Mae'n cynnal cyswllt agos ag Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd parthed y rhyngwyneb rhwng gwaith y Llys Gweinyddol a'r Uwch Dribiwnlys. Yn ogystal, mae gan y Llywydd oruchwyliaeth o restrau Mainc y Frenhines, y Morlys a'r Llys Masnachol, y Llys Technoleg ac Adeiladu a lleoli barnwyr Adran Mainc y Frenhines yn eistedd tu allan i Lundain ar y gylchdaith, ac yn Nhribiwnlys Lloches a Mewnfudo (AIT) a'r Tribiwnlys Apelion Cyflogaeth (EAT).

3.3 Canghellor yr Uchel Lys yw Llywydd Adran y Siawnsri, Dirprwy Lywydd Diogelu'r Llys ac aelod o'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol. Mae'n cynnal goruchwyliaeth gyffredinol o waith Adran y Siawnsri (yn cynnwys y Llysoedd Methdaliad, Cwmnïau a Phatentau) a gyflawnwyd yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol ac yn wyth Cofrestrfa Rhanbarth y Siawnsri. Ar y cyd â'r Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil a'r Uwch Farnwr Llywyddu, mae hefyd yn gyfrifol am gyflawni busnes arbenigol tu allan i'r Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol.

Arolwg o Gostau

3.4 O ganlyniad i bryderon am lefel cynyddol uchel a cangh ymesur costau ymgyfreithiad, penododd Meistr y Rholiau (bryn hynny'r Arglwydd Clarke o Stone-cum-Ebony), yr Arglwydd Ustus Jackson i gyflawni arolwg sylfaenol o gostau ymgyfreithiad sifil. Roedd yr arolwg, a gyflawnwyd dros 12 mis gan ddechrau yn Ionawr 2009, yn cynnwys tri cham.

3.5 Yn ystod cam un, nododd yr Arglwydd Ustus Jackson y materion i'w hystyried ac yn ei *Adroddiad Rhagflaenol*[10] a gyhoeddwyd ym Mai 2009, fe sefydlodd y dystiolaeth sydd ar gael a gwrth ddadleuon. Roedd cyfnod o ymgynghori yn dilyn cam dau oedd yn cynnwys nifer o gyfarfodydd gyda chyrff buddiannol a seminarau gyda'r farnwriaeth, academyddion, gweithwyr cyfreithiol a defnyddwyr llys. Gwahoddwyd cyflwyniadau ysgrifenedig gan bob parti â diddordeb erbyn 31 Gorffennaf 2009.

10 www.judiciary.gov.uk/about_judiciary/cost-review/reports.htm

3.6 Am y tro cyntaf mae'r mater o gostau anghymesur mewn ymgyfreithiad sifil wedi ei ystyried yn gyffredinol yn hytrach na darn wrth ddarn. Erbyn i'r Arolwg hwn gael ei ddatgan, rwy'n disgwyl y bydd adroddiad yr Arglwydd Ustus Jackson wedi cyhoeddi ei adroddiad. Gobeithir yn fawr iawn y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod pwysigrwydd ei adroddiad a'r cyfle mae'n cyflwyno ar gyfer diwygio positif. Gobeithir hefyd y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymryd y camau angenrheidiol ynghylch gweithrediad yr argymhellion cyn gynted â phosibl.

Diwygio'r Llysoedd Sifil

3.7 Yn Ionawr 2008, fe wahoddodd y Bwrdd Barnwrol Gweithredol Syr Henry Brooke i gyflawni ymchwiliad i bennu p'un a oes achos ar gyfer uno'r llysoedd sifil. Cynhyrchodd Syr Henry adroddiad manwl yn Awst 2008 ble casglodd na ellid parhau gyda chynlluniau i uno. Fodd bynnag, fe ddaeth Syr Henry i'r casgliad hefyd y dylid cymryd nifer o gamau i wella'r system bresennol ac fe sefydlodd gyfres o argymhellion defnyddiol yn ei adroddiad.

3.8 Gwahoddodd Bwrdd Gweithredol y Farnwriaeth yr Arglwydd Ustus Moore-Bick i sefydlu gweithgor yn cynnwys amrywiaeth o farnwyr, HMCS a swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder, i ystyried oblygiadau gweithredu'r argymhellion. Derbyniodd Bwrdd Gweithredol y Farnwriaeth yr adroddiad ac fe ysgrifennais at yr Arglwydd Ganghellor ar 22 Mai 2009 i gyflwyno adroddiad y gweithgor fel ymateb y Bwrdd i argymhellion Brooke.

3.9 Cytunwyd y dylid ffurfio grŵp pellach i oruchwylio gweithrediad yr argymhellion a gymeradwywyd ac y dylai'r Arglwydd Ustus Moore-Bick gadeirio'r grŵp unwaith eto. Bydd y gwaith yn parhau dros y flwyddyn i ddod.

3.10 Mae HMCS wedi bod yn ystyried ei strategaeth hirdymor ar wahân ar gyfer gweinyddu busnes sifil ac mae'n datblygu Rhaglen Moderneiddio Busnes Sifil. Mae synergedd pendant rhwng y ddwy raglen waith a bydd angen i'r ddau grŵp gydweithio'n agos.

3.11 Mae'n galonogol i weld fod pwyslais newydd ar fusnes sifil sydd wedi ei esgeuluso yn y system gyfiawnder ers cryn dipyn o amser. Wrth gydnabod y pwysau ariannol sy'n wynebu pob maes, mae hyn yn gyfle i wneud gwelliannau gwirioneddol i weinyddu cyfiawnder sifil ac fe obeithir y gwneir y buddsoddiadau angenrheidiol i optimeiddio'r gwelliannau arfaethedig.

Diwygio Gwasanaethau Cyfreithiol

3.12 Trosglwyddodd y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 awdurdod apeliadol a goruchwyliol Meistr y Rholiau i gyfreithwyr yr Uchel Lys. Mae gwaith wedi parhau eleni i sicrhau fod yr apeliadau diwethaf dan y farnwriaeth hon wedi eu pennu mewn da bryd. Mae cyswllt wedi parhau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Awdurdod Rheolaeth Cyfreithwyr a Chymdeithas y Cyfreithwyr i sicrhau fod

darpariaethau trosiannol, yn llywodraethu'r apeliadau hynny ac yn llywodraethu cyhoeddi a gwneud darpariaethau rheoleiddio ar gyfer proffesiwn y cyfreithwyr, wedi ei ddrafftio'n foddhaol a'i weithredu mewn da bryd. Dan y darpariaethau trosiannol hynny, mae Meistr y Rholiau wedi parhau i arfer rôl craffu, cyhoeddi a chydsyniad parthed rheoliadau ymarfer cyfreithwyr. Rhagwelir y bydd y rôl yn dod i ben yn Ionawr 2010, pan fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol yn dod yn gwbl weithredol.

Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Sifil (CPRC)

3.13 Mae'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Sifil yn Gorff Cyhoedd Anadrannol a luniwyd dan y Ddeddf Gweithdrefn Sifil 1997 i wneud rheolau llys ar gyfer Isadran Sifil y Llys Apêl, yr Uchel Lys a'r llysoedd sirol.

3.14 Mae Meistr y Rholiau yn gadeirydd y CPRC yn rhinwedd ei swydd, ond Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil sy'n gyfrifol am redeg a rheoli'r pwyllgor o ddydd i ddydd, yr Arglwydd Ustus Moore-Bick. Mae'r pwyllgor aelodaeth yn cynnwys y farnwriaeth, cyfreithwyr, bargyfreithwyr a chynrychiolwyr lleyg. Mae llwyth gwaith y CPRC eisoes yn sylweddol wrth adolygu rheolau presennol a drafftio rhai newydd ar gyfer deddfwriaeth newydd. Mae'r pwyllgor yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau fod unrhyw addasiad neu reolau newydd yn addas i'r diben.

3.15 Cyflwynwyd offerynnau statudol gerbron y Senedd yn cynnwys y 48fed, 49fed a 50fed diweddariad i'r rheolau. Cyflwynir rhai o'r addasiadau mwyaf arwyddocaol i'r Rheolau yn ystod cyfnod yr Arolwg hwn isod:

- Ar gyfer ceisiadau a gyhoeddwyd ar neu wedi 6 Ebrill 2009, fe gynyddwyd cyfyngiad ariannol y weithdrefn llwybr carlam o £15,000 i £25,000;
- Mae'r rheolau newydd yn caniatáu ceisiadau ar gyfer ac amrywiaeth o orchmynion capio costau ar gostau yn y dyfodol;
- Cyfeiriad Ymarfer newydd yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi, gweinyddu a chlywed achosion tu allan i Lundain a Chaerdydd.
- Arolwg o arbenigwyr: gwnaethpwyd newidiadau i egluro'r diffiniad o arbenigwr a rhoi canllaw i leihau anghysondeb o ran penodi cyd arbenigwyr sengl; adolygu datganiad gwirionedd yr arbenigwr; a sicrhau fod y cwestiynau a gyflwynir i arbenigwyr yn gymesur a phriodol;
- Cynllun prawf cyllidebu i'w redeg yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol a'r Uchel Lys ym Manceinion parthed achosion difenwad, enllib ac anwiredd maleisus yn unig; a
- Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer ceisiadau meddiant yn seiliedig ar ôl-ddyledion morgais neu gynllun pwrcasu cartref parthed eiddo preswyl[11].

11

Cyngor Cyfiawnder Sifil (CJC)

3.16 Meistr y Rholiau sydd â chyfrifoldeb dros y Cyngor Cyfiawnder Sifil, dan ei gadeiryddiaeth ef. Dan y canllaw hwn mae'r cyngor wedi cynhyrchu darn arwyddocaol o gyngor polisi, a gyflwynwyd i'r Arglwydd Ganghellor yn Rhagfyr 2008, ar ddiwygio gweithredoedd ar y cyd. Mae'r cyngor hwnnw wedi ei fabwysiadu'n gyffredinol gan yr Arglwydd Ganghellor. Mae hefyd wedi cyflwyno nifer o ymatebion i ymgynghoriadau ar, er enghraifft, Papur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar iawndal cyfunol i ddefnyddwyr a'i ymgynghoriad ar ddiwygio Rheoleiddiad 44/2001 ar reoleiddio trawsffiniol a gorfodi dedfrydau.

3.17 Ar gais y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fe gyflawnodd y CJC gyfryngiad arwyddocaol ar faterion anafiadau personol, a gynhyrchodd gytundeb llwyddiannus gan bob parti oedd â diddordeb. Fe gyflawnodd waith pellach hefyd ar gyllid trydydd parti ar gyfer cyfreithiad, ffioedd at raid a materion eraill yn ymwneud â chostau. Cafodd y pwysau ar berchnogion eiddo gryn dipyn o sylw eleni; i ddelio â phryderon yn y maes hwn, fe ddatblygodd pwyllgor tai'r CJC brotocol rhag-weithredu morgeisiau. Cyhoeddwyd y protocol sy'n annog partïon i gyfnewid gwybodaeth yn ystod y camau cyntaf, gan Feistr y Rholiau yn Nhachwedd 2008. Bydd manylion llawn gweithgareddau'r cyngor ar gael yn ei adroddiad blynyddol 2008-2009.

Pwyllgor Dethol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

3.18 Cyflwynodd Meistr y Rholiau dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Safonau, Preifatrwydd ac Enllib yn y Cyfryngau[12]. Archwiliodd y dystiolaeth a gyflwynwyd gostau mewn achosion difenwad; datblygiadau cyfreithiol parthed Erthygl 8 a 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r modd y mae gofyn i'r llysoedd gydbwyso asesu materion megis yr hawl u barch am breifatrwydd a'r hawl i ryddid i fynegi barn; y berthynas rhwng y farnwriaeth a'r cyfryngau; a dirmyg llys.

3.19 Amlygodd y dystiolaeth sut yr oedd costau achosion difenwad, yn arbennig parthed costau'n codi o drefniadau ffi amodol, yn arwydd o gostau o'r fath ledled cyfreithiad ac y byddai Syr Rupert Jackson yn gwneud argymhellion diwygio yn ei adroddiad ar gostau. Isod, fe amlygir nad oedd y datblygiadau parthed difenwad, preifatrwydd a rhyddid y wasg, yn groes i gamddealltwriaeth cyffredin, o ganlyniad i benderfyniadau gan Mr Ustus Eady. Yn hytrach, roeddynt o ganlyniad i benderfyniadau apeliadol (Llys Apêl a Thŷ'r Arglwyddi), oedd yn deillio o gynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith Cymru a Lloegr a'r gofyniad ar y llysoedd yn dilyn Deddf Hawliau Dynol 1988 i: i) roi grym i'r Ddeddf honno; a ii) ystyried cyfreitheg yn deillio o Lys Hawliau Dynol Ewrop. Roedd hefyd yn amlinellu gwaith a gyflawnwyd gan y panel cyfryngau o farnwyr a materion yn codi am weithrediad Deddf Dirmyg Llys 1981.

Barnwyr Sifil Penodedig

12 www.publications.parliament.co.uk/pa/cm200809/cmselect/cmcumeds/memo/press/ucps6702.htm

3.20 Mae gan y Barnwyr Sifil Penodedig (BCP) gyfrifoldeb cyffredinol mewn canolfan llys neu grŵp o lysoedd, ar gyfer dyrannu gwaith barnwrol sifil i sicrhau cyflawniad cyfiawn ac effeithiol o'r busnes. Yn hyn o beth, mae'r Barnwyr Sifil Penodedig yn chwarae rôl arweinyddiaeth allweddol.

3.21 Mae Llysoedd Sifil wedi gweld cynydd serth yn y nifer o achosion "efelychu" sy'n aml yn deillio ar y rhyngrwyd ac yna'n datblygu i nifer mawr o achosion ledled y wlad. Dechreuodd y duedd hon gyda'r achosion taliadau banc, ac fe'i gwelwyd eto'n ddiweddar gydag achosion yn ymwneud â'r Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1999. Hyd yn hyn, mae rheolaeth y Barnwyr Sifil Penodedig o'r achosion hyn, mewn ymgynghoriad â'r Arglwydd Ustus Moore-Bick yn rhinwedd ei swydd fel Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil, wedi cadw amhariadau i isafswm wrth aros am benderfyniadau gan y llysoedd uwch.

3.22 Cynhaliwyd cynhadledd y Barnwyr Sifil Penodedig ar 25 a 26 Mehefin 2009. Mae hyn yn ddigwyddiad blynyddol pwysig sy'n darparu'r unig gyfle i Farnwyr Sifil Penodedig, Barnwyr Llywyddol a'r uwch farnwriaeth cwrdd a thrafod y materion sy'n effeithio ar gyfiawnder sifil. Cadeiriwyd y gynhadledd gan Ei Anrhydedd y Barnwr Rubery, ac fe ddefnyddiwyd yr achlysur i ddynodi deng mlynedd ers sefydlu'r CPR a chreu rôl y Barnwyr Sifil Penodedig.

Adeilad y Rholiau

3.23 Mae'r gwaith hirddisgwyliedig i adeiladu llys penodol ar gyfer y Siawnsri, Masnachol a Thechnoleg ac Adeiladu yn Llundain wedi cychwyn o'r diwedd, gydag Adeilad y Rholiau ar ei ffordd i fod yn barod i'w ddefnyddio erbyn y targed o 2011. Bwriedir y bydd y llys pwrpasol hwn gyda chyfleusterau modern o ansawdd yn adlewyrchu pwysigrwydd y llysoedd sydd wedi eu lleoli yno i'r gymuned fusnes, yn genedlaethol a thramor.

Y Llys Gweinyddol

3.24 Mae gwaith y Llys Gweinyddol yn amrywiol, yn cynnwys awdurdod cyfraith weinyddol Cymru a Lloegr, yn ogystal ag awdurdod goruchwyliol dros lysoedd is a thribiwnlysoedd. Mae'r awdurdod goruchwyliol, a weithredir yn bennaf trwy'r weithdrefn o adolygiad barnwrol, yn cwmpasu pobl neu gyrff sy'n arfer swyddogaeth cyfraith gyhoeddus - maes eang a chynyddol.

3.25 Yn yr *Arolwg*[13] diwethaf, fe ddisgrifiodd yr Arglwydd Phillips y pwysau sylweddol sydd ar y Llys Gweinyddol, yn arbennig baich gwaith lloches a mewnfudo. Mae pryderon difrifol yn parhau ynghylch y pwysau ar y Llys Gweinyddol a'r barnwyr sy' eistedd yno, ac mae'r llys yn parhau i ddibynnu ar ewyllys da ac ymroddiad y barnwyr sy'n eistedd ynddo yn ogystal â gwaith caled y staff sy'n eu cefnogi.

13 www.judiciary.gov.uk/docs/lcj_review_2008.pdf

3.26 Ym mlwyddyn ariannol 208-09, derbyniodd y llys 7,375 o geisiadau am adolygiad barnwrol. O'r rhain, mae 4,797, tua dau draean o lwyth gwaith adolygiad barnwrol y llys, yn ymwneud â lloches neu fewnfudo. Wedi ychwanegu'r 4,028 o geisiadau ailystyried (dan adran 103A y Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002), daw cyfanswm achosion mewnfudo i 8,825.

3.27 Y llynedd fe gafwyd nifer o ddatblygiadau ym maes Cyfiawnder Gweinyddol, gyda rhai na fydd yn dwyn ffrwyth tan 2010. Rwy'n disgrifio'r rhain isod. Rhagwelaf y byddant yn helpu lleihau'r baich ar y Llys Gweinyddol rhyw ychydig, er mai dim ond gydag amser y bydd effaith terfynol y newidiadau yn dod i'r amlwg.

Y Llys Gweinyddol Tu Allan i Lundain

3.28 Cyhoeddwyd yr adroddiad *'Cyfiawnder Tu Allan i Lundain'*[14], ffrwyth gwaith gweithgor barnwrol dan gadeiryddiaeth y cyn Arglwydd Ustus May, yn 2007. Prif argymhelliad yr adroddiad oedd y dylid sefydlu swyddfeydd cwbl weithredol ar gyfer y Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd, Birmingham, Leeds a Manceinion, ac y dylai barnwyr eistedd yn rheolaidd i glywed achosion Llys Gweinyddol yn y canolfannau hynny. Addaswyd hyn yn fuan iawn fel polisi barnwrol ac, wedi cryn dipyn ow waith caled gan y farnwriaeth a HMCS, dechreuodd y Llys Gweinyddol tu allan i Lundain weithredu ar 21 Ebrill 2009.

3.29 Darperir arweinyddiaeth farnwrol yn y canolfannau rhanbarthol hyn gan Mr Ustus Beatson a Mr Ustus Langstaff, sy'n Farnwyr Cyswllt Mainc y Frenhines ar gyfer cylchdeithiau Cymru a Chanolbarth Lloegr, a Gogledd a Gogledd Ddwyrain Lloegr yn y drefn honno. Maent yn clywed achosion Llys Gweinyddol tra ar gylchdaith ac yn cysylltu â'r Barnwyr Llywyddol, barnwyr Llys Gweinyddol enwebedig eraill ac Uwch Farnwyr Cylchdaith yn eistedd fel dirprwy farnwyr yr Uchel Lys i sicrhau y rheolir llwyth gwaith y Llys Gweinyddol tu allan i Lundain yn briodol.

3.30 Mae arwyddion cynnar o fisoedd gweithredol cyntaf y canolfannau Llys Gweinyddol rhanbarthol yn galonogol - mae achosion a gyflwynir tu allan i Lundain bellach yn atebol am tua deg y cant o holl achosion y Llys Gweinyddol yn gyffredinol ac mae'r nifer oedd yn cynyddu o hyd.

Diwygiadau i apeliadau mewnfudo

3.31 Ar hyn o bryd, dan adran 103A y Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002, gall y rhai sy'n apelio i'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo a chael eu gwrthod ofyn am orchymyn yn gofyn i'r Tribiwnlys ailystyried ei benderfyniad mewn apêl. Fe'i cyflwynir i'r Tribiwnlys ei hun yn gyntaf. Os fydd y tribiwnlys yn penderfynu peidio gorchymyn ei ailystyried, mae'r Ddeddf ei hun yn galluogi ymgeisyddyddion i hysbysu'r llys priodol (yng Nghymru a Lloegr, yr Uchel Lys) eu bod nhw eisiau i'r llys ailystyried eu ceisiadau dan adran 103A. Mae'r ceisiadau ailystyriaeth hyn, gydag ychydig dros 4,000 y flwyddyn , yn gyfran sylweddol o lwyth gwaith y Llys

14

Gweinyddol.

3.32 Yn Rhagfyr 2007, sefydlwyd arolwg dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Ustus Richards a Lin Homer, Prif Weithredwr Asiantaeth Ffiniau'r DU, i daclo'r mater o waith mewnfudo a lloches a gyflawnir gan y Llys Gweinyddol yn ei gyflawnder. Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi papur ymgynghori yn seiliedig ar argymhellion y grŵp ar 21 Awst 2008. Cyhoeddwyd ymateb swyddogol y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar 8 Mai 2009 gan gynnwys ymrwymiad i drosglwyddo gwaith y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo i strwythur Tribiwnlysoedd unedig newydd, a fydd, yn bwysig i'r Llys Gweinyddol, yn creu llwybr apêl statudol i ailosod ceisiadau ailystyriaeth.

3.33 Mae gwaith ar droed gan Wasanaeth y Tribiwnlysoedd ac eraill i baratoi ar gyfer y Siambr Mewnfudo a Lloches newydd a fydd yn cymryd drosodd o waith y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo yn gynnar yn 2010. Mae barnwriaeth llysoedd Cymru a Lloegr, dan arweiniad Llywydd Adran Mainc y Frenhines, yn cymryd rhan weithredol wrth gynorthwyo'r paratoadau hyn.

Trosglwyddo Adolygiad Barnwrol i Siambr Mewnfudo a Lloches yn yr Uwch Dribiwnlys

3.34 Yn ogystal â'r trosglwyddiad o geisiadau i'w hailystyried allan o'r Uchel Lys i'r strwythur apeliadau statudol a ddarparwyd gan y system tribiwnlysoedd, yn 2010 fe ddylwn weld trosglwyddiad math o gais am adolygiad barnwrol, 'ceisiadau ffres' y delir â nhw yn yr Uchel Lys ar hyn o bryd, i'r Uwch Dribiwnlys. Bydd hyn yn bosibl diolch i ddarpariaethau yn y Ddeddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol dros yr haf. Mae adolygiad barnwrol 'ceisiadau ffres' yn ymwneud â honiadau fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud camgymeriad yn ôl y gyfraith wrth ddatgan nad yw rhai cynrychioliadau yn cyfrif fel cais ffres dan Reol Mewnfudo 353. Yn gyffredinol, fe ddelir â'r ceisiadau hyn ar bapur ac fe wrthodir y mwyafrif (yn 2008, gwrthodwyd 76 y cant ar y cam hwnnw), ond mae nifer yn mynd ymlaen at wrandawiad llafar ble bydd y mwyafrif yn cael gwrthod caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol (yn 2008, fe fethodd 56.5 y cant mewn gwrandawiad adnewyddu llafar a dim ond 12 gwrandawiad terfynol a gafwyd).

3.35 Unwaith bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, yr Arglwydd Ustus Carnwath, wedi dynodi ei fod yn fodlon fod yr Uwch Dribiwnlys yn barod i ddelio â cheisiadau o'r fath, rwy'n bwriadu arfer y grym yn y Ddeddf i roi cyfarwyddyd i'r effaith y dylid delio â'r ceisiadau adolygiad barnwrol hyn yn yr Uwch dribiwnlys yn hytrach na'r Llys Gweinyddol. Bydd cyfuniad o Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ei hun, y Llywyddion Siambr, sydd oll yn farnwyr yr Uchel Lys, a'r aelodau hynny o'r Uwch dribiwnlys a ddynodwyd yn arbennig gan yr Uwch Lywydd, gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus, i lywyddu dros yr achosion adolygiad barnwrol. Rhagwelaf y bydd y trosglwyddiad yn digwydd yn ystod 2010.

3.36 Gobeithir y bydd effaith cyfunol trosglwyddiad yr ailystyriaethau ac arolygon barnwrol ceisiadau ffres i'r Uwch Dribiwnlys yn cael effaith sylweddol a llesol ar gyfaint gwaith y Llys Gweinyddol. Dylai trosglwyddiad gwaith ailystyried i'r system tribiwnlysoedd ganiatáu i'r Llys Gweinyddol gyflawni ei waith craidd adolygiad barnwrol, ynghyd â'r gwaith lloches a mewnfudo pwysig fydd yn parhau i fod o fewn ei awdurdod.

3.37 Rwyf wedi disgrifio hyn fel cyfnod o newid i gyfiawnder Gweinyddol. Mae'r berthynas rhwng y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn arbennig yn un sy'n newid ac fe allwn weld rhagor o ddatblygiadau yn y blynyddoedd i ddod. Yn farnwrol mae potensial amlwg ar gyfer gweithio ar draws ffiniau barnwrol, fel y dengys trosglwyddiad gwaith adolygiad barnwrol ac ailysytiraeth.

4 Cyfiawnder Teuluol

4.1 Llywydd yr Adran Deulu, Syr Mark Potter, yw Pennaeth Cyfiawnder Teuluol dan Adran 9 y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ac mae'n gyfrifol am weithredu polisi a chreu rheolau priodol; ef yw cadeirydd y Pwyllgor Rheol Gweithdrefn Teulu a chadeirydd y Cyngor Cyfiawnder Teuluol (FJC). Mae hefyd yn Bennaeth Profiant ac yn Llywydd y Llys Gwarchod. Yr Arglwydd Ustus Thorpe, Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Teuluol, sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y FJC, ac ef yw Pennaeth Cyfraith Teulu Rhyngwladol.

4.2 Mae'r Llywydd, mewn cydweithrediad agos â'i uwch farnwyr teuluol, wedi datblygu elfennau o'i Fframwaith Llys Teulu. Yn benodol, gyda'r isafswm posibl o gyllid mae wedi gweithio gyda Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddod â'r llysoedd achosion teuluol a'r llysoedd sirol ynghyd dan un to, fel llysoedd teulu cwbl integredig. Maent yn eistedd yn yr amrywiol ganolfannau gwrandawiad teulu yng Nghymru a Lloegr a, ble nad yw hynny'n bosibl, maent yn gydleoli eu gweinyddiaethau. Mae'r mesurau hyn, a thrafodaethau rhwng y farnwriaeth a'r weinyddiaeth leol, wedi arwain at achosion yn cael gwrandawiadau mwy effeithiol a mwy o hyblygrwydd o ran ble y gellir gwrando ar achosion.

4.3 Fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheol Gweithdrefn Teuluol (FPRC), mae'r Llywydd wedi llunio rheolau'r llys i gefnogi newidiadau deddfwriaethol yn awdurdodaeth y teulu, yn cynnwys trawsnewidiad llwyr o'r gyfundrefn rheolau teulu, ble mae'r Pwyllgor yn ceisio alinio gwaith y llysoedd ynadon gyda'r llys sirol a'r Uchel Lys trwy broses harmoneiddio, heb newid lefelau'r llys trwy ddeddfwriaeth gynradd. Cyflwynwyd gwaith atodol parthed rheolau mynediad i'r cyfryngau a datguddiad gan y Llywodraeth, yn fyr rybudd iawn, er mwyn cyflawni tryloywder yng ngwaith y llysoedd teulu. Roedd cyswllt agos rhwng y Llywydd (fel Pennaeth Cyfiawnder Teuluol a Chadeirydd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Teuluol(FPRC)) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hanfodol er mwyn sicrhau fod y rheolau a chyfarwyddiadau ymarfer drafft yn barod erbyn y dyddiad cau byr iawn o Ebrill 2009. Fe gynhyrchodd y Llywydd ganllaw barnwrol ar y rheolau tryloywder newydd, eto o fewn cyfnod byr iawn o amser, ar gyfer y farnwriaeth ym mhob llys.

Rhaglen Cyfraith Breifat y Llywydd

4.4 Cychwynnodd y Llywydd weithgor traws asiantaeth dan arweiniad y farnwriaeth i ystyried adolygiadau i Raglen Cyfraith Breifat y Llywydd (PPLP). Sefydlwyd y grŵp er mwyn argymell dull (neu ddulliau) o ddatrys anghydfodau cyfraith teulu preifat, fel datblygiad o Raglen Cyfraith Breifat y Llywydd ac er mwyn darparu dulliau priodol o ddatrys anghydfodau ac amcanion Llwybr Cyfraith Breifat Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass)[15]. Profwyd ymarferoldeb y canllaw newydd arfaethedig mewn chwe maes o'r llysoedd dros yr haf, gyda'r bwriad o gyhoeddi Cyfarwyddyd Ymarferol erbyn diwedd 2009.

15

Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

4.5 Mae'r Llywydd a'i uwch farnwyr teulu (mewn cyfathrebiad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) wedi arwain a goruchwylio monitro barnwrol yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi ei weithredu yn Ebrill 2008. Ar sail adborth a gafwyd gan y farnwriaeth ac asiantaethau cyfiawnder teulu ar ymweliadau Cylchdaith y Llywydd, maent wedi gweithio'n agos â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni'r addasiadau angenrheidiol i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn y pump prif faes o ddiddordeb i'r farnwriaeth yn ymwneud â gwaith papur a ffurflenni, defnyddio arbenigwyr a'r amserlen ar gyfer y plentyn. Cytunodd y Llywydd gyda'r Prif Gynghorwr newydd ar Ddiogelwch Plant i ddarparu mewnbwn barnwrol i grŵp arbenigwyr newydd y Prif Gynghorwr.

Canllaw Cafcass

4.6 Ar fyr rybudd, ac er mwyn rheoli oedi cynyddol gan Cafcass i benodi gwarcheidwaid cyfraith gyhoeddus a chyflwyno adroddiadau mewn achosion cyfraith breifat, mae'r Llywydd wedi cynhyrchu Canllaw Dros Dro parthed Cafcass a Cafcass Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn cefnogi egwyddorion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a Rhaglen Cyfraith Breifat, ac fe'i cymeradwywyd gan HMCS, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran dros Ysgolion, Plant a Theuluoedd, Cafcass a Cafcass Cymru cyn toriad yr haf. Nid ydynt yn Gyfarwyddiadau Ymarfer ffurfiol, ond fe'i bwriedir i greu fframwaith hyblyg ar gyfer trefniadau lleol nes ceir arolwg o ddatblygiad yn Ebrill 2010.

Dyraniad a Throsglwyddiad Gweithdrefnau

4.7 Mae'r Llywydd a'i uwch farnwyr, ar y cyd â HMCS, wedi drafftio Gorchymyn Dyrannu a throsglwyddo Gweithdrefnau[16] newydd, yn categoreiddio a dosbarthu gwaith rhwng lefelau'r llysoedd ac addasu'r cyn Gyfarwyddiadau Dyrannu i Farnwyr, yn categoreiddio'r math o waith ddylai gael gwrandawiad gan yr amrywiol lefelau o farnwyr sydd wedi eu neilltuo ar gyfer y diben hwnnw. Mae'r Llywydd yn parhau i adolygu effaith y dyraniadau ar waith y barnwyr teulu, gyda chymorth HMCS.

Digwyddiadau

4.8 Mae'r Llywydd wedi mynychu a siarad mewn nifer o ddigwyddiadau cyfiawnder teulu amlwg yn Lloegr[17]. Maent yn cynnwys

- y Seminar Priodasau dan Orfod yng Nghanolfan Fwslimaidd Llundain
- 5ed Cyngres y Byd ar Gyfraith Teulu a Hawliau Plant
- 15fed Cynhadledd Deirblwydd Cymdeithas Ynadon a Barnwyr y Gymanwlad

16www.judiciary.gov.uk/judgment-guidance/practice_ directions/family-media.htm
17 www.judiciary.gov.uk/publications_media/speeches/index.htm

- a Darlith Goffa Hershman/Levy (yr atodwyd copi ohoni i Adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Cymorth Cyfreithiol Teuluol 2009 - HC714).

Uchel Lys

4.9 Mae'r Llywydd wedi cychwyn cam cyntaf gweithrediad strwythur rhestru newydd ar gyfer barnwyr yr Adran Deulu, yn darparu ar gyfer wythnosau bloc o ddilyniant eistedd gan farnwyr Adran Teulu ar Gylchdaith ac yn Llundain gyda slotiau 'wrth gefn' mwy strwythuredig er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o amser barnwr Uchel Lys. Sefydlwyd system o wythnosau 'bloc' ar gyfer achosion datrys anghydfodau ariannol, a fydd yn gwbl weithredol erbyn dechrau 2010.

Llysoedd sirol a llysoedd ynadon

4.10 Mae gan y Barnwyr Teulu Dynodedig (Barnwyr Cylchdaith) gyfrifoldeb dros bob llys o fewn eu hardaloedd Canolfan Ofal. Ym mhob ardal mae'r broses o gyflawni gweinyddiaeth unedig o'r holl lysoedd teulu, yn cynnwys y Llysoedd Gweithdrefnau Teuluol, wedi parhau ac wedi ei gyflawni i raddau helaeth. Mae'r Barnwyr Teulu Dynodedig yn gyfrifol am gyswllt rhwng y llysoedd sirol a'r Llysoedd Gweithdrefnau Teuluol a bob mater yn ymwneud â gweinyddiaeth a dyraniad a throsglwyddiad gweithdrefnau. Yn eu tro, mae'r Barnwyr Teulu Dynodedig yn atebol i'r Barnwyr Cyswllt Adran Deuluol (barnwyr teuluol yr Uchel Lys) sy'n goruchwylio trefniant busnes teuluol o fewn yr amrywiol Ranbarthau ble y'i penodir. Mae tasg y Barnwyr Cyswllt Adran Deuluol a'r Barnwyr Teulu Dynodedig wedi dod yn un fwyfwy beichus o ganlyniad i adnoddau cyfyngedig a chynnydd didrugaredd yn y nifer o geisiadau gofal cyfraith gyhoeddus a cheisiadau cyfraith breifat ar anghydfodau preswylio a chyswllt ac ariannol.

Y cynnydd mewn gwaith teuluol

4.11 Mae'r cynnydd hwn wedi gosod cryn bwysau ar farnwyr teulu ar bob lefel ac ar y weinyddiaeth wrth wynebu'r nifer cyfyngedig o ddyddiau llys sydd ar gael ar gyfer cyflawni busnes y teulu. O ganlyniad i adnoddau cyfyngedig ac oedi cynyddol ar ran Cafcass, y mae'r llysoedd teulu yn ddibynnol arnynt mewn gweithdrefnau plant cyfraith gyhoeddus a phreifat, mae oedi i gyflawni busnes teulu yn sicr yn achosi ac yn cynrychioli achos i bryderu. Er gwaethaf cynhyrchu Canllaw Dros Dro'r Llywydd mewn ymgais i gynorthwyo'r broblem hon, mae'r tuedd hwn yn annhebyg o newid cyfeiriad.

Deddf Galluedd Meddyliol

4.12 Fe enwebwyd Syr Mark Potter gan yr Arglwydd Brif Ustus (wedi ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor) i fod yn Llywydd y Llys Gwarchod (CoP). Yn ystod y flwyddyn bu'r Llywydd yn:

(i) sicrhau y cytunwyd ar y cyfarwyddiadau rheolau ac ymarfer newydd o fewn yr

amser a ganiatawyd er mwyn galluogi'r darpariaethau Amddifadu o Ryddid i ddod i rym yn Ebrill 2009, ac y sefydlwyd trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant ar gyfer barnwyr Uchel Lys yr Adran Teulu a Siawnsri a barnwyr Llys Gwarchod yn Archway, Llundain, a ledled Cymru a Lloegr;

(ii) sicrhau fod cyswllt agos gyda'r weinyddiaeth a'r Farnwriaeth parthed materion yn codi wrth ragweld yr angen i benodi barnwyr atodol, yn cynnwys adnewyddu ac adolygu'r barnwyr a restrwyd ar gyfer y Llys Gwarchod; cynorthwyo gyda sicrhau ôl-lenwad o Farnwyr Rhanbarth Llys Gwarchod gyda Barnwyr Adran Llys Sirol o ledled Cymru a Lloegr; a chytuno ar strwythurau cyfathrebu a gweithdrefnau parthed symud y Llys Gwarchod dan adain HMCS o 1 Ebrill 2009;

(iii) sicrhau, gyda'r Uwch Farnwr y Llys Gwarchod, fod strwythurau digonol, atgyfnerthedig ar gael i glywed apeliadau Barnwr Rhanbarth a gwaith Llys Gwarchod ar y Rhanbarthau ac mai dim ond gwaith yr Uchel Lys y gellir ei drosglwyddo i'r Adran Teulu;

(iv) cyhoeddi Cyfarwyddyd Ymarfer Llys Gwarchod[18] i sicrhau cysondeb ledled Cymru a Lloegr wrth baratoi sypynnau llys a pharthed materion eraill cysylltiedig yn ymwneud â lles personol a cheisiadau eraill i'r Llys Diogelu; a

(v) sefydlu Pwyllgor Rheolau *at raid* i gyflawni adolygiad o Reolau'r Llys Gwarchod 2007 a'r cyfarwyddiadau ymarfer a ffurflenni sy'n cyd-fynd â'r Rheolau.

Profiant

4.13 Mae'r Gwasanaeth Profiant yn rhan o Adran Teulu'r Uchel Lys ac felly daw dan awdurdod y Llywydd. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Llywydd wedi sefydlu Pwyllgor Rheolau Profiant Anghynhennus i ystyried adolygu'r Rheolau Profiant Anghynhennus 1987, yn cynnwys y mater o gyhoeddi a datguddio ewyllysiau. Bydd yr Arglwydd Ustus Munby yn cadeirio'r gweithgor a'r aelodaeth yn dod o weithwyr cyfreithiol, y Gwasanaeth Profiant, Swyddfa Cyngor ar Bopeth a'r cyhoedd. Ei amcan fydd i gynhyrchu cyfres drafft cyfredol a hwylus o reolau a chyfarwyddiadau ymarfer cefnogol.

18 www.hmcourts-service.gov.uk/cms/14705.htm

5 Cyfrifoldebau arweinyddiaeth barnwyr eraill

Bwrdd Gweithredol Barnwrol

5.1 Yr Arglwydd Brif Ustus sy'n cadeirio'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol, sy'n cynnwys Meistr y Rholiau, Llywydd Adran Mainc y Frenhines, Llywydd yr Adran Teulu, y Canghellor yr Uchel Lys, Dirprwy Lywydd Adran Mainc y Frenhines, yr Uwch Farnwr Llywyddol a Phrif Weithredwr y Swyddfeydd Barnwrol. Mae uwch farnwyr a swyddogion o Gyfarwyddfa'r Swyddfeydd Barnwrol eraill yn mynychu eitemau unigol. Mae aelodau barnwrol y Bwrdd yn cwrdd yn anffurfiol pob wythnos pan nad oes gwrandawiad ffurfiol. Mae'r Bwrdd yn trafod nifer o'r materion barnwrol a gyflwynir uchod, ond mae hefyd yn trafod â phenderfynu ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredinol i'r farnwriaeth, o ran ein perthynas â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac yn fwy cyffredinol. Tua diwedd y flwyddyn gyfreithiol, cychwynnais arolwg o swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a Chyngor y Barnwyr. Sefydlwyd y trefniadau presennol yn 2005. Wedi tair blynedd fe ddaeth yr amser i mi fodloni fy hun mai'r trefniadau hyn yw'r gorau y gellir eu creu. Rwyf wedi gofyn i Steve Humphreys o'r Swyddfa Farnwrol i gyflawni'r arolwg hwn. Rwy'n disgwyl gallu rhoi rhagor o wybodaeth am ddeiliannau'r gwaith yn *Arolwg* y flwyddyn nesaf.

Penaethiaid Adran

5.2 Mae gan bob un o'r Penaethiaid Adran (Meistr y Rholiau, Llywydd Adran Maint y Frenhines, Llywydd yr Adran Teulu, a'r Canghellor yr Uchel Lys) gyfrifoldeb i arwain, rheoli a bugeilio barnwyr yn ei Adran neu ei Hadran ei hun (yn achos Meistr y Rholiau, mae hyn yn cynnwys Arglwyddi Ustusiaid Apêl) ac mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros y barnwyr arbenigol hynny sy'n cyflawni gwaith sifil neu deulu ledled y wlad. Yr Arglwydd Ustus Waller yw Dirprwy Lywydd yr Adran Sifil a'r Arglwydd Ustus Hughes yw Dirprwy Lywydd Adran Droseddol y Llys Apêl. Cynorthwyir Llywydd Adran Mainc y Frenhines gan y Dirprwy Lywydd yr Arglwydd Ustus Thomas.

Uwch Farnwr Llywyddu

5.3 Efallai mai'r baich rheoli ac arweinyddiaeth mwyaf trwm yw'r un ar Uwch Farnwr Llywyddu (yr Arglwydd Ustus Leveson o 1 Ionawr 2007 tan 31 Rhagfyr 2009), sy'n gyfrifol am yr hyn a elwir ar adegau yn 'Adran Gwladol' - neu'r llysoedd a'r barnwyr ledled y wlad islaw i'r Uchel Lys. Mae'r swydd hon wedi esblygu'n raddol i rôl sy'n cyfateb i un o arweiniad a gweinyddiaeth llawn amser – anaml iawn y gall y deiliad eistedd yn y Llys Apêl, ond mae'n gweithredu fel pennaeth staff i'r Arglwydd Brif Ustus, nid yn unig yn ei gynghori ond hefyd yn arfer nifer o rymoedd a ddirprwywyd parthed rheoli a lleoli'r farnwriaeth ledled y wlad. Mae hefyd yn cydlynu a goruchwylio gwaith y Barnwyr Llywyddu ar gyfer pob Cylchdaith (pedwar ar gyfer De Ddwyrain Lloegr a dau ar gyfer pob Cylchdaith arall). Cynorthwyir yr Uwch Farnwr Llywyddu yn ei waith gan y Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddu (yr Arglwydd Ustus Goldring) a gan y Barnwr Rhanbarth Michael Walker; mae'r tri

hefyd yn aelodau o Fwrdd HMCS ar hyn o bryd (cymrodd yr Arglwydd Ustus Goldring le'r Arglwydd Ustus Stanley Burnton pan ymddiswyddodd o'r Bwrdd ym Mehefin 2009). Pan fydd yr Arglwydd Ustus Leveson yn ymddiswyddo fel Uwch Farnwr Llywyddu ar 31 Rhagfyr 2009, bydd yr Arglwydd Ustus Goldring yn cymryd ei le, a bydd Ei Anrhydedd y Barnwr William Kennedy yn cymryd ei le ar Fwrdd HMCS.

Uwch Lywydd y tribiwnlysoedd, Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith a Chadeirydd y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol

5.4 Mae tri Arglwydd Ustus Apêl arall yn cyflawni cyfrifoldebau arwain a gweinyddol penodol ar raddfa fawr, ond yn arwain sefydliadau sy'n cyhoeddi eu hadroddiadau eu hunain ac felly dim ond eu crybwyll yn gryno a wnawn yma. Y cyntaf yw Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (Arglwydd Ustus Carnwath). Mae ganddo gyfrifoldebau statudol parthed rheolaeth a lles barnwriaeth y tribiwnlysoedd sy'n gymharol i rai'r Arglwydd Brif Ustus parthed barnwriaeth y llysoedd, a grym a chyfrifoldeb tebyg i wneud sylwadau i'r Senedd ac i gynrychioli barn aelodau'r tribiwnlysoedd.[19]

5.5 Yr ail yw Cadeirydd y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, yr Arglwydd Ustus Maurice Kay. Ni fu rôl hyfforddiant erioed mor bwysig i'r farnwriaeth ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Arglwydd Ustus Maurice Kay am ei arweinyddiaeth wrth i'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol ddatblygu a dechrau gweithredu Strategaeth Hyfforddiant Barnwrol. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol[20].

5.6 Y drydedd swydd yw Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith Yn weithredol o Fedi 2008, bydd y Cadeirydd fel arfer yn Arglwydd Ustus Apêl. Olynodd yr Arglwydd Ustus Munby yr Arglwydd Ustus Etheron yn Awst 2009.

Arglwyddi Ustusiaid eraill

5.7 Mae gan nifer o aelodau'r Llys Apêl gyfrifoldebau nodweddiadol eraill. Ymhlith y rhain mae: Yr Arglwydd Ustus Scott Baker a'r Arglwydd Ustus Wilson, gweithredu fel barnwyr penodedig ar gyfer achosion disgyblaeth farnwrol y llysoedd a'r tribiwnlysoedd; Arglwyddes Ustus Arden, Bennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol; Arglwydd Ustus Thorpe, Ddirprwy Bennaeth Cyfiawnder Teuluol a Phennaeth Cyfraith Teulu Rhyngwladol; Arglwydd Ustus Thomas, Llywydd y Rhwydwaith Ewropeaid o Gynghorau Barnwyr; a'r Arglwyddes Ustus Hallett a'r Arglwydd Ustus Toulson, Gomisiynwyr y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Bu'r Arglwydd Ustus Stanley Brunton yn farnwr cyfrifol am TG, moderneiddio ac ystadau cyn iddo ymddiswyddo ym Mehefin 2009. Mae ei gyfrifoldebau wedi eu rhannu rhwng yr Arglwydd Ustus Lewison (ystadau) a Mr Ustus Mann (TG a moderneiddio).

19 i ddarllen cyhoeddiadau diweddar yr Uwch Lywydd, ewch i www.tribunals.gov.uk/Tribunals/About/president.htm

20 http://www.jsboard.co.uk/downloads/annual_report_2009_web.pdf

Yr Uchel Lys

5.8 Ymysg barnwyr yr Uchel Lys mae 26 sydd â rolau arweinyddiaeth arwyddocaol naill ai fel Barnwyr Llywyddu, y mae 14 ohonynt, neu fel Barnwyr Cyswllt Adran Cyswllt Teulu (wyth), Barnwyr Goruchwylio Siawnsri (dau yn ogystal â'r Canghellor), neu Farnwr Cyswllt Llys Gweinyddol (dau). Mae eu cyfrifoldebau dros sicrhau cyflawniad effeithiol gwaith barnwrol o fewn eu hawdurdodaeth yn sylweddol. Mae wedi cynyddu'n nodedig yn ddiweddar ac, yn syml iawn, ni allai'r system ymdopi heb eu hymdrechion.

5.9 Yn ogystal: Mr Ustus Eady yw'r barnwr sy'n gyfrifol am y rhestrau rheithgor a di-reithgor yn yr Uchel Lys; Mr Ustus Gross yw'r barnwr sy'n gyfrifol am y Llys Masnachol; Mr Ustus Ramsey yw'r barnwr sy'n gyfrifol am y Llys Technoleg ac Adeiladu; Mr Ustus Underhill yw Llywydd y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth; Mr Ustus Walker yw Llywydd y Siambr Apeliadau Gweinyddol; Mr Ustus Barling yw Llywydd y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth; enwebir holl farnwyr yr Adran Siawnsri i eistedd fel Cadeiryddion y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth ac fe'i neilltuir i'r Siambr Uwch Haen Treth a Siawnsri; Mr Ustus Warren yw Llywydd Siambr Treth a Siawnsri'r Uwch Dribiwnlys; Mr Ustus Mitting yw Cadeirydd y Comisiwn Arbennig Apeliadau a Mewnfudo; a hyd at ei farwolaeth drist ym Mehefin 2009, Mr Ustus Hodge oedd Llywydd y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo. Mr Ustus Blake yw Darpar Lywydd Siambr Lloches a Mewnfudo'r system tribiwnlys newydd.

5.10 Mae Barnwyr yr Uchel Lys gyda chyfrifoldebau tu allan i'r llysoedd neu'r tribiwnlysoedd yn cynnwys Mrs Ustus Black, aelod o'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol; Mr Ustus Dobbs, farnwr cyfrifol am faterion amrywiaeth barnwrol; a Mr Ustus Beatson, farnwr cyfrifol am gysylltiadau Seneddol. Mae Mr Ustus Griffith Williams a Mr Ustus Mitting yn cynorthwyo wrth ddelio â materion disgyblaethol barnwrol. Syr Thayne Forbes oedd y barnwr cyfrifol am les barnwrol ac ar hyn o bryd mae wedi parhau yn y rôl honno ar ol ei ymddeoliad yn Ionawr 2009.

6 Y farnwriaeth

Uwch Apwyntiadau

6.1 Fe'm penodwyd ar 1 Hydref 2008 fel Arglwydd Brif Ustus i olynu'r Arglwydd Phillips o Worth Matravers a ddaeth yn Uwch Arglwydd y Gyfraith. Yn ystod y flwyddyn, fe olynodd Syr Anthony May fi fel Llywydd Adran Mainc y Frenhines, hefyd ar 1 Hydref 2008. Penodwyd yr Arglwydd Ustus Collins i Bwyllgor Apeliadol Tŷ'r Arglwyddi ar 28 Ebrill 2009, fel Arglwydd Collins o Mapesbury. Ar 1 Hydref 2009, penodwyd yr Arglwydd Clarke o Stone-cum-Ebony yn Ustus i Lys Goruchaf y Deyrnas Unedig ac fe benodwyd yr Arglwydd Neuberger o Abbotsbury i'w olynu fel Meistr y Rholiau.

Annibyniaeth

6.2 Un o brif bwrpasau'r Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 oedd egluro gwahaniad grymoedd rhwng yr Adran Weithredol, y Farnwriaeth a'r Corff Deddfwriaethol ac felly i hybu a sicrhau annibyniaeth y farnwriaeth. Mae Adran 3 y ddeddf yn darparu gwarant o annibyniaeth farnwrol ac yn gosod dyletswydd gyfansoddiadol ar Weinidogion y Goron, pawb sy'n gysylltiedig â gweinyddiaeth cyfiawnder ac yn arbennig yr Arglwydd Ganghellor i gynnal annibyniaeth farnwrol. Y rhan sylweddol olaf o'r Ddeddf i'w weithredu, yn Hydref 2009, oedd Rhan 3, a diddymodd Arglwyddi Cyfraith o Dŷ'r Arglwyddi a chreuodd Llys Goruchaf ar gyfer y Deyrnas Unedig. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sydd â swyddi barnwrol cyflogedig bellach wedi eu hanghymhwyso rhag eistedd na phleidleisio yn Nhŷ'r Arglwyddi nes iddynt ymddeol.

6.3 Bydd hyn yn newid arwyddocaol, oherwydd er nad oedd fy rhagflaenwyr yn mynychu trafodaethau yn Nhŷ'r Arglwyddi'n rheolaidd, maent wedi siarad yno o bryd i'w gilydd, yn arbennig pan roedd cynigion cyfansoddiadol neu gyfreithiol arwyddocaol ble roedd barn yr uwch farnwriaeth yn berthnasol neu o ddiddordeb. Yn y dyfodol bydd yn rhaid i'r Arglwydd Brif Ustus ddefnyddio dulliau eraill i gyfleu ei farn. Mae Adran 5 y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol yn darparu y gall Prif Ustus unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig gyflwyno sylwadau ysgrifenedig gerbron y Senedd ar faterion a ymddengys i fod o bwys parthed y farnwriaeth neu weinyddiaeth cyfiawnder fel arall. Mae hwn yn faes o'r cyfansoddiad sy'n esblygu, ac rydym yn dal i aros i weld sut mae'n datblygu.

Amrywiaeth

6.4 Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, mae amrywiaeth barnwrol wedi dod yn fwyfwy amlwg. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i gynhadledd ar y mater, o'r enw *"Barnwriaeth ar gyfer yr 21ain Ganrif"*, a gynhaliwyd ym Mawrth 2009. Daeth y gynhadledd a chyfreithwyr ac eraill ynghyd i drafod sut y gellid gwella amrywiaeth yn y farnwriaeth. Cyhoeddwyd adroddiad o'r gynhadledd ar 27 Tachwedd[9]. Rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i gyflawni mwy o amrywiaeth barnwrol. Yn fy araith i'r gynhadledd, fe ddywedais: "Rhaid i ni sicrhau fod y gronfa o ymgeiswyr

cymwys i'w hystyried ar gyfer penodiad barnwrol mor eang â phosibl, a bod pob ymgeisydd cymwys o leiaf yn ystyried a ydynt am ddilyn gyrfa farnwrol. Mae yna nifer na fyddai â diddordeb mewn gyrfa farnwrol, am eu rhesymau eu hunain. Nid yw pawb yn mwynhau neu ni fyddai pawb yn mwynhau'r cyfrifoldebau. Ond heb os fe fyddai rhai, gan eu cyflawni mewn modd arbennig. Ond sut allwn sicrhau a yw eu penderfyniad ar p'un a ddylent geisio gyrfa farnwrol yn seiliedig ar ffaith a realiti yn hytrach na chamsyniadau? A sut allwn ni ddileu rhwystrau diangen sy'n llesteirio'n amcanion?"

6.5 Ail-lansiwyd y Cynllun Cysgodi Gwaith Barnwrol yn Nhachwedd 2008, ac mae'r nifer o gyfranogwyr wedi mwy na dyblu ers yr ail-lansiad. Mae wedi ei hyrwyddo yng Nghymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar yn ogystal ag yn y llysoedd ac asiantaethau eraill sy'n cyflogi cyfreithwyr.

6.6 Mae'r Barnwyr Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol wedi parhau i gyflawni gwaith i esbonio'r gyfraith a'r system gyfreithiol i grwpiau cymunedol ac i annog pobl o bob rhan o'r gymuned i ystyried gyrfa yn y gyfraith. Mae'r Swyddfa Farnwrol wedi darparu'r Barnwyr Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol â gwell dulliau o gyfathrebu gyda'i gilydd a'r Swyddfa Farnwrol ac, yn dilyn cais gan y Barnwyr yn eu cynhadledd flynyddol yn 2009, maent hefyd wedi eu darparu â chysylltiadau i sefydliadau cymunedol.

6.7 Ac yn olaf, mae'r Arglwydd Ustus Goldring yn aelod o banel y Farwnes Neuberger, sydd wedi derbyn cais gan yr Arglwydd Ganghellor i ystyried y mater o amrywiaeth barnwrol ac i wneud argymhellion. Wrth ysgrifennu, rydym yn dal i aros i weld beth fydd argymhelliad y panel.

6.8 Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am nifer barnwyr, yn cynnwys gwybodaeth am eu rhyw ac ethnigrwydd, ar ein wefan farnwrol[21].

Cysylltiadau â'r cyfryngau

6.9 Roedd yn ddiddorol iawn i mi nodi yn arolwg barn 2009 ar *Ymddiriedaeth yn y Proffesiynau*[22] a gyflawnwyd gan Ipsos MORI, fod barnwyr wedi dod yn gyfartal drydydd gydag athrawon prifysgol, tu ôl i feddygon ac athrawon ysgol. Nid yw hyn yn fy synnu, gan fod barnwyr wedi sgorio'n uchel yn yr arolwg hwn ers ei gychwyn yn 1983, ond ni ddylai hyn ei harwain i gymryd ymddiriedaeth y cyhoedd yn ganiataol. Agwedd ddiddorol yw mai ychydig iawn o'r 2,000 o ymatebwyr, os o gwbl, fydd erioed wedi cwrdd â barnwr.

6.10 I'r mwyafrif, adroddiadau yn y cyfryngau yw'r prif gyfle i weld sut mae barnwyr, ynadon a'r llysoedd yn gweithio. Fodd bynnag, nid yw pob penderfyniad ar ddedfryd farnwrol yn boblogaidd na'n hawdd i'w ddeall, felly i helpu newyddiaduron a'r cyhoedd mae Cyngor y Barnwyr wedi sefydlu panel bychan

21 www.judiciary.gov.uk/keyfacts/statistics/index.htm
22 www.ipsos-mori.com/researchpublications/researcharchive/poll.aspx?oItemId=2478

o farnwyr a hyfforddwyd i roi cyfweliadau ar faterion a deimlwn sy'n bwysig i hybu dealltwriaeth a hyder y cyhoedd yn y farnwriaeth a'r system gyfiawnder, yn arbennig yn agwedd dedfrydu ein gwaith. Ni fydd barnwyr ar y panel cyfryngau yn rhoi sylw ar achosion unigol nac yn cymryd rhan mewn trafodaethau gwleidyddol, ond gyda'n Swyddfa Cyfathrebu Barnwrol fe fyddant yn helpu darparu rhywfaint o gyd-destun ac ehangder i'n straeon newyddion.

6.11 Ym mis Hydref 2009, fe dderbyniais wahoddiad i annerch cynhadledd flynyddol Cymdeithas y Golygyddion a thema fy anerchiad oedd bod gwneuthuriad cyfan cymdeithas rydd yn ddibynnol ar wasg annibynnol a barnwriaeth annibynnol - cred a fu'n bwysig i mi erioed. Mae'r testun llawn ar gael ar wefan y farnwriaeth[23].

Ynadon

6.12 Rhan fwyaf y farnwriaeth yw'r ynadaeth. Mae'r 29,000 o Ynadon Heddwch sy'n eistedd yn y llysoedd ynadon gan ddelio â dros 95 y cant o'r holl achosion troseddol, yn ogystal â chyfran sylweddol o achosion teuluol. Byddai gweinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn methu'n llwyr heb gyfraniad y dynion a menywod sy'n gwirfoddoli i wasanaethu eu cymunedau lleol. Credaf fod dyled cymdeithas iddynt yn enfawr ac nid wyf yn sicr ein bod yn eu gwerthfawrogi'n ddigonol ar bob adeg.

Tribiwnlysoedd

6.13 Wedi'r ynadaeth, grŵp mwyaf nesaf y farnwriaeth yw barnwriaeth y tribiwnlysoedd, sy'n niferu tua 7,000. Maent yn gymysgedd o farnwriaeth gyflogedig ac sy'n derbyn ffi, nifer gyda chymwysterau cyfreithiol ond hefyd yn cynnwys amrywiaeth eang o arbenigwyr eraill o feddygon a gweithwyr meddygol eraill i syrfewyr siartredig a'r rhai gyda phrofiad o fywyd yn y lluoedd arfog.

Cofiaduron

6.14 Mae yna 1,235 o Gofiaduron. Maent yn aelodau rhan amser, y telir ffi iddynt o'r farnwriaeth sy'n gallu eistedd yn Llys y Goron neu'r llysoedd sirol ac sydd â'r un awdurdod â Barnwyr Cylchdaith. Mae bargyfreithwyr a chyfreithwyr yn gymwys i'w penodi, ond mae'r mwyafrif llethol yn fargyfreithwyr: 1,176 mewn cyferbyniad â dim ond 59 o gyfreithwyr. Mae'r gwahaniaeth yn rhannol yn adlewyrchiad o'r ffaith mai dim ond bargyfreithwyr oedd yn gymwys yn y gorffennol, ond mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith nad yw nifer o gyfreithwyr a allai fod yn addas i'w penodi yn ei chael yn hawdd derbyn caniatâd gan eu cwmnïau i wneud cais am waith barnwrol rhan amser. Mae hyn yn faes gofid arbennig, ac un rwyf wedi ei grybwyll i Gymdeithas y Gyfraith. Mae bargyfreithwyr mewn practis preifat yn hunangyflogedig, a gallant benderfynu drostynt eu hunain p'un a ydynt am ymgymryd â'r gwaith.

23 http://www.judiciary.gov.uk/docs/speeches/lcj-society-editors-nov-2009.pdf

6.15 Ni fydd nifer o Gofiaduron yn mynd ymlaen i fod yn farnwyr llawn amser, ond gan fod sicrhau profiad fel Cofiadur yn gam allweddol i symud ymlaen at yrfa llawn amser fel Barnwr Cylchdaith neu Farnwr Uchel Lys, mae diffyg Cofiaduron sy'n gyfreithwyr yn cael effaith ddifrifol ar bwy sydd ar gael i'w penodi i'r swyddi hynny. Mae gan hyn effaith ehangach ar amrywiaeth cyffredinol y farnwriaeth gan ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw un sydd heb brofiad fel Cofiadur yn cael ei benodi fel barnwr llawn amser. Rydw i a'r Farwnes Prashar o'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol wedi treulio cryn dipyn o amser yn annog proffesiwn y cyfreithwyr i fynd i'r afael â'r mater hwn ac annog cwmnïau i ganiatáu partneriaid i wneud cais am Gofiaduraeth. Rydym yn awyddus i annog cyfreithwyr o'r safon ofynnol i ymgeisio am benodiad.

Meinciau Cylchdaith a Rhanbarth

6.16 Mae yna 640 o Farnwyr Cylchdaith sy'n clywed achosion troseddol difrifol, a'r achosion sifil a theulu mwy cymhleth yn y llys sirol. Mae yna 444 o Farnwyr Rhanbarth yn y llysoedd sirol yn clywed achosion sifil a theulu. Yn ogystal â'r Barnwyr a Dirprwy Farnwyr Rhanbarth sifil mae yna 134 o Farnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), a alwyd yn Ynadon Cyflogedig yn flaenorol, a 166 o Ddirprwyon.

6.17 Mae'r Barnwr Adfocad Cyffredinol, Ei Anrhydedd y Barnwr Jeff Blackett, yn Farnwr Cylchdaith ac yn arwain tîm o wyth Barnwr Adfocad ac 11 o ddirprwy Farnwyr Adfocad yn clywed achosion troseddol yn erbyn personél milwrol.

Uchel Lys ac uwch

6.18 Gan droi at yr Uchel Lys, mae yna 47 o Feistri a chyfatebol, yn cynnwys Barnwyr Rhanbarth ym Mhrif Gofrestrfa'r Adran Deulu. Fe'i cynorthwyir gan 84 o ddirprwyon.

6.19 Yn ogystal, mae yna 107 o farnwyr Uchel Lys a dau farnwr arall sydd â swyddi fel farnwyr Uchel Lys am eu bod yn eistedd ar Lysoedd rhyngwladol. Mae yna 38 Arglwydd Ustus Apêl a phum Pennaeth Adran. Yng Ngorffennaf 2009, penderfynodd y Bwrdd Gweithredol Barnwrol y byddem, am y tro cyntaf erioed, yn casglu gwybodaeth ar y costau mae'r barnwyr hyn yn hawlio wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Dechreuwyd casglu'r wybodaeth ar 1 Hydref 2009, a byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth am y tro cyntaf yn rhan gyntaf 2010.

7 Gweithrediad y Cytundeb Partneriaeth

7.1 Trwy greu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) cyflwynwyd angen i sefydlu cytundeb partneriaeth rhwng yr Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor parthed rhedeg y llysoedd. Sefydlir yr egwyddorion tu ôl i'r cytundeb hwn yn y *Ddogfen Fframwaith ar gyfer HMCS*[24], y cytunwyd arni yn Ebrill 2008. Mae'r cytundebau hyn wedi sefydlu fod gan bob aelod o staff HMCS ddyletswydd gyfunol i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor, gyda'r bwriad o ddiogelu gweinyddiaeth ddyledus ac annibynnol cyfiawnder. Rhaid arolygu'r fframwaith o fewn tair blynedd, erbyn Ebrill 2011.

7.2 Mae'r cytundeb yn dal yn ei ddyddiau cynnar ac felly mae'n rhy fuan i ddatgan barn ar p'un a yw'n darparu'r mecanwaith gorau ar gyfer diogelu annibyniaeth HMCS. O ddydd i ddydd, mae'n annhebyg y bydd nifer wedi sylwi ar newid sylweddol mewn dynesiad. Felly dylai fod. Ar lefel genedlaethol, mae gennyf bryderon fod y cyd ddyletswydd a osodwyd ar y Prif Weithredwr a'i uwch staff yn anodd ei gyflawni'n ymarferol. Nid yw hyn yn unrhyw fath o feirniadaeth ar yr unigolion dan sylw, yn wir mae'n dda gennyf adrodd y trechwyd y rhan fwyaf o anawsterau diolch i ddynesiad positif pawb. Yn hytrach, mae'n sylw ar y dasg anodd i'r Prif Weithredwr o gydbwyso rheoli'r adnoddau a ddyrannwyd iddi o ystyried safbwyntiau gwahanol pob partner.

7.3 Rwy'n ddiolchgar i Gyfarwyddwyr Barnwrol HMCS (yr Uwch Farnwyr Llywyddu, yr Arglwydd Ustus Stanley Burnton a'r Barnwr Rhanbarth Michael Walker) am eu holl waith i sicrhau fod y farnwriaeth wedi ymgysylltu'n llwyr ar lefel genedlaethol yn rhedeg HMCS. O ganlyniad rwyf wedi gallu cyfyngu fy ymglymiad i gynnal trosolwg o'r system a'r trafodaethau Concordat ffurfiol gyda'r Arglwydd Ganghellor, a gynhelir unwaith y flwyddyn i gytuno ar gyllideb HMCS. Yng Ngorffennaf, fe benodais yr Arglwydd Ustus Goldring i olynu'r Arglwydd Ustus Stanley Burnton fel cyfarwyddwr HMCS, cyn ei benodi yn Uwch Farnwr Llywyddu yn Ionawr 2010.

7.4 Rwyf wedi sôn cyn hyn am y nifer o dasgau gweinyddol ac arweinyddiaeth y mae'r farnwriaeth wedi derbyn ers y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Rhaid i mi grybwyll fy niolch enfawr unwaith eto i'r barnwyr hynny sy'n fodlon ymgymryd â'r rolau hynny. Ni fyddai'r system yn gallu ymdopi hebddynt. Mae'n dda gennyf ddweud fod HMCS wedi sefydlu trefniadau cefnogaeth ffurfiol yn ystod y flwyddyn ar gyfer y barnwyr hynny gyda chyfrifoldebau arweinyddiaeth. Wrth gwrs, mae HMCS dan bwysau sylweddol yn nhermau'r adnoddau staff sydd ar gael, ond rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd gan y farnwriaeth y gefnogaeth weinyddol maent angen wrth i'r trefniadau hyn setlo, er mwyn gallu cyflawni'r swyddogaethau ymdrechgar sy'n ofynnol wrth iddynt gynnal gweinyddiaeth cyfiawnder.

7.5 Yn nhermau ystâd y llys, unwaith eto rhaid i mi roi sylw i'r tanfuddsoddi parhaus

24 www.hmcourts-service.gov.uk/cms/files/Framework_Document_Fina_Version_01-04-08.pdf

sydd wedi arwain at ddiffyg symudiad yn yr ôl-groniad cynnal a chadw ers nifer o flynyddoedd. O ganlyniad mae'r rhan fwyaf o'r problemau mwyaf difrifol wedi cael sylw, ond mae dipyn o'r atgyweirio mwy sylfaenol yn dal heb ei gyflawni. Po hiraf y bydd y problemau bychain heb eu datrys, mae'n anochel y byddant yn dod yn fwyfwy difrifol a drud i'w hunioni. Rwy'n falch fod gwaith yn digwydd i edrych ar ble gallai swyddogaethau llysoedd a thribiwnlys rannu'r un llety, a allai yn ei dro arwain at arbedion maint a darpariaeth llety mwy addas. Ar yr un pryd, rhaid i ni sicrhau y cynhelir yr egwyddorion sylfaenol yn ymwneud â chyfiawnder sifil.

7.6 O ystyried yr arbedion y mae angen i'w Weinyddiaeth gyflawni, mae trafodaethau ynghylch cyllideb HMCS yn digwydd mewn hinsawdd anodd. Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi bod yn adeiladol iawn ei ddynesiad, ond mae'n rhaid i mi ddweud fod gennyf bryderon gwirioneddol ynghylch gallu HMCS i ymdopi dan y gyllideb y mae disgwyl iddi weithredu ynddi. Nid yw hynny i ddweud na ellir cyflawni arbedion, ond mae perygl y cwtogwyd cymaint ar y llysoedd fel nad oes digon o staff, nid yw'r ystâd wedi ei chynnal yn ddigonol, ac nid oes digon o ddyddiau yn eistedd i weinyddu cyfiawnder yn y modd mae cymdeithas yn disgwyl.

7.7 Rwy'n parhau i bryderu fod HMCS yn dal yn ddibynnol ar incwm a dderbynnir gan ddirwyon a ffioedd am ran sylweddol o'i ddyraniad cyllideb. Ni all fod yn gyfiawn yr effeithir yn negyddol ar HMCS o ganlyniad i ragolwg anghywir o dderbyniadau ffioedd, neu oedi gan y Llywodraeth i weithredu cynnydd mewn ffioedd. Mae materion cyfansoddiadol pwysig iawn hefyd ynghylch i ba raddau y gall barnwyr fod yn gysylltiedig â gosod dirwyon os ydynt hefyd â chyfrifoldeb ar y cyd dros weithrediad y llysoedd. Rwy'n falch fod yr Arglwydd Ganghellor yn ymddangos i fod yn cydnabod yr anawsterau ac wedi gofyn i'w swyddogion, ynghyd â'r Uwch Farnwr Llywyddu, i edrych yn fanylach ar y materion dan sylw.

7.8 I gloi, er bod gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd statudol i ariannu gwasanaeth llysoedd effeithiol ac effeithlon, gallaf ddeall pam na ellir ystyried fod HMCS yn ddiogel rhag y toriadau y mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth gyflawni yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Felly o ran lefelau staffio, rwyf wedi fy nghalonogi gan ymroddiad y Llywodraeth y dylid diogelu'r rheng flaen ble bynnag fo'n bosibl. Rwyf hefyd yn cydnabod y temtasiwn i sicrhau arbedion trwy docio mentrau newydd a gwelliannau mewn TG, ond nid oes unrhyw amheuaeth y byddai dynesiad o'r fath yn ei gwneud yn gynyddol anodd i HMCS foderneiddio gweinyddiaeth cyfiawnder, ac i wella'r lefelau o wasanaeth a gynigir i'r cyhoedd. Yn syml, bydd yn cymryd pob ymdrech i sicrhau fod HMCS yn aros yn ei unfan; yn realistig mae'n debygol iawn y bydd perfformiad yn dirywio.

Atodiad 1: DOLENNI I ADRODDIADAU ERAILL NEU FFYNONELLAU GWYBODAETH FANWL

Y Farnwriaeth

Mae'r wefan farnwrol yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth fanwl am y farnwriaeth, yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o'r uwch farnwriaeth, gwybodaeth am gyflogau barnwrol, costau busnes y gall barnwr hawlio yn ôl, a chyhoeddiadau ac areithiau gan y farnwriaeth. Cyfeiriad y wefan yw: www.judiciary.gov.uk

Bwrdd Astudiaethau Barnwrol

Adroddiad Blynyddol 2008-09

www.jsboard.co.uk/downloads/annual_report_2009_web.pdf

Adroddiadau Adrannol ac Asiantaethau

Adroddiad Blynyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2008-09

www.justice.gov.uk/publications/docs/justice-annual-report-08-09ii.pdf

Adroddiad Blynyddol HMCS 2008-09

www.hmcourts-service.gov.uk/cms/files/HMCS-AnnualReportAndAccounts-2008-09.pdf

Adroddiadau'r Llysoedd

Llys Apêl (Adran Droseddol)

www.hmcourts-service.gov.uk/cms/files/Criminal_Division_Review_2007-08_web.pdf

Llys Apêl (Adran Sifil)

www.hmcourts-service.gov.uk/cms/files/review_legal_year_2008.pdf

Y Llys Technoleg ac Adeiladu

www.hmcourts-service.gov.uk/docs/infoabout/tcc/tcc_annual_report_2008.pdf

Llys sirol

www.hmcourts-service.gov.uk/publications/annual_reports/county/index.htm

Llys Teulu

www.hmcourts-service.gov.uk/cms/11041.htm

Llys y Goron

www.hmcourts-service.gov.uk/publications/annual_reports/crown/index.htm

Penodiadau Barnwrol

Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

www.judicialappointments.gov.uk/static/documents/JAC_AR09_web.pdf

Cwynion Barnwrol

Swyddfa Cwynion Barnwrol

www.judicialcomplaints.gov.uk

Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon Penodiadau a Chwynion Barnwrol 2008-09
www.judicialombudsman.gov.uk/docs/JACOAnnualReport2008-09.pdf

Cyfiawnder Sifil

Cyngor Cyfiawnder Sifil

www.civiljusticecouncil.gov.uk

Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Sifil

www.justice.gov.uk/about/civil-proc-rule-committee.htm

Tribiwnlysoedd

Arolygon Gweithrediad yr Uwch Lywydd

Ail Arolwg Hydref 2008

www.tribunalsservice.gov.uk/Tribunals/Documents/Publications/
SecondIR(psrc301008)final.pdf

Trydydd Arolwg Gorffennaf 2009

www.tribunals.gov.uk./tribunals/Documents/Publications/SeniorPres3rdReview.pdf

Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth y Tribiwnlysoedd 2008-09

www.tribunals.gov.uk/tribunals/Documents/Publications/239_016_TS_AR_2009_Web_Version.pdf